# Y DINESYDD

Mehefin 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhifyn 478 £1.20



**Carfan Dan 14 CRICC Caerdydd a enillodd Ŵyl Rygbi Trefynwy ym mis Ebrill t.10**

**Côr Merched Plastaf yn Rhufain t.17**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Gorffennaf/Awst***
***Ela Pari Huws***

Cyfraniadau erbyn **27 Mehefin** at:
elaparihuws@hotmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Noson gymdeithasol *Y Dinesydd*

Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd 50 oed *Y Dinesydd*, trefnwyd achlysur cymdeithasol ar nos Iau, 20 Ebrill lle daeth aelodau'r pwyllgor presennol, golygyddion misol a gohebwyr cyson y papur bro ynghyd yn nhŷ bwyta Porro, Llandaf.

Dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd maith i wirfoddolwyr *Y Dinesydd* gyfarfod wyneb yn wyneb a chael cyfle i gymdeithasu yn anffurfiol dros bryd o fwyd blasus.

Roedd yn gyfle i Gwilym Dafydd, y cadeirydd (ar y pryd) ddiolch i bawb yn unigol am eu cyfraniad at waith *Y Dinesydd* a chydnabod ymdrech, angerdd a brwdfrydedd pawb fu'n aelodau o bwyllgor *Y Dinesydd* dros y 50 mlynedd ddiwethaf am eu gwaith o sicrhau bod rhifyn misol y papur wedi ymddangos yn ddi-dor.

Diolchodd Gwilym yn arbennig i bawb a gyfrannodd at y rhifyn diweddaraf a gyhoeddwyd yr wythnos cynt oedd yn ddathliad o'r 50 mlynedd ddiwethaf yn hanes *Y Dinesydd*. Y mae'r papur yn ddibynnol ar ymdrechion tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiwyd yn y cefndir gan gyfrannu at gynnwys y papur, golygu'r cynnwys, argraffu a dosbarthu'r papur yn fisol. Y mae'r papur wedi wynebu heriau di-ri yn ystod ei hanes ond roedd gan Gwilym neges optimistaidd i'w rannu am ddyfodol y papur bro wrth annog mwy o bobl ifanc i ymuno â'r pwyllgor er mwyn diogelu ei ddyfodol. Os oes diddordeb gennych gyfrannu at waith *Y Dinesydd* yn y dyfodol, cysylltwch â Gwilym yn uniongyrchol drwy e-bost: eirianagwilym@gmail.com.

Roedd yn hyfryd cael cwmni un o sylfaenwyr a chefnogwyr selog y papur, Gwilym Roberts, yn y cinio a gorffennwyd y noson gyda Gwilym yn rhannu rhai o'i atgofion am ddyddiau cynnar y papur bro.



Diolchwyd i staff Porro am eu gwasanaeth yn ystod y noson ac am baratoi prydau bwyd blasus ar ein cyfer.

*John Hayes*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *"Mehefin - Mis y Blodau"*

Mae amser yn pasio fel y gwynt ac erbyn hyn cafwyd dathlu teilwng i hanner can mlwyddiant ers sefydlu'r *Dinesydd*. Buodd llawer o sylw i'r achlysur ar y radio a'r teledu â dau dudalen yn y cylchgrawn *Golwg* a chynhyrchwyd rhifyn dwbl swmpus o'r papur gan orffen y dathlu hefo digwyddiad mewn bwyty yn Llandaf hefo nifer o bobl a fu ynghlwm wrth y papur dros y blynyddoedd yn bresennol. Ymlaen rwan i'r dyfodol gan obeithio y gwelwn ni gynnydd yn y darllenwyr wedi'r holl gyhoeddusrwydd!

Dwy'n gorfod sgrifennu hyn o golofn ym mis Mai ar gyfer rhifyn Mehefin o'r *Dinesydd* sef "Mis y Blodau" chwedl y bardd Eifion Wyn o Borthmadog odd yn dathlu ei ben-blwydd ym Mai ac yn ei gerddi "Telynegion y Misoedd" sonnir am ddyfodiad y Gwanwyn i'n plith "gyda'i flodau fel y brrug" a "pharabl y gog" a "clychau'r gog ar lawr y wig". Mae mis Mai yn fis hudolus gan fod y Gwanwyn yn deffro wedi hirlwm y Gaeaf hefo miloedd o gennin Pedr a charpedi o fwtsias y gog yn tyfu ymhob man a'r coed magnolia, ceirios a ffrwythau yn pingo o flodau a gwawn werdd yn gorchuddio'r coed a'r adar yn pyncio eu croeso i'r Gwanwyn "Gwyn ei ddyfod" meddai Eifion Wyn a chyhoeddaf Amen i hynny!

Ond er i'r Gwanwyn godi ein calonnau eisoes mae'r flwyddyn wedi bod yn llawn o ddigwyddiadau hefo rhai yn galonogol ac eraill wedi peri diflastod, tristwch, dicter ac ofn am y dyfodol a hyn i gyd hefo chwe mis arall i fynd cyn diwedd 2023!

Erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd Eisteddfod yr Urdd yn nhre Llanymddyfri yn Sir Gâr wedi digwydd a minnau wedi treulio wythnos gyfan o flaen y teledu yn gwylio'r arlwy anhygoel hefo plant a phobl ifanc yr Urdd yn dangos eu doniau digamsyniol a'r safon cystal ag erioed. Eisoes cyhoeddwyd y bydd Eisteddfod yr Urdd 2024 ger Meifod yn yr hen Sir Drefaldwyn ac yna fe'i cynhelir ym Mharc Margam ger Port Talbot yn 2025.

Ers cyhoeddi rhifyn dathlu 50 *Y Dinesydd* dan ni wedi colli un o'n hactorion dawnus a charismatig sef Dafydd Hywel o Ddyffryn Aman ac yntau yn 77 oed. Cafodd yrfa ddisglair a nôl yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf sefydlodd Cwmni Mega odd yn cynhyrchu pantomeimiau Cymraeg a roddodd bleser lawer i filoedd a miloedd o blant ledled Cymru dros y blynyddoedd.

Bydd llawer yn ei gofio yn portreadu'r cymeriad Jac Daniel yn opera sebon *Pobol y Cwm.* Mae ei fro enedigol wedi cynhyrchu llu o bobl ddawnus mewn sawl maes ac yn sicr mae Dafydd Hywel yn un o'r bobl hynny. Gwelir ei eisiau yn fawr ym myd y ddrama yng Nghymru.

Yn ddiweddar dathlodd dau o enwogion ein cenedl eu penblwyddi yn 80 oed. Cyfeirio ydw i at Dafydd Wigley cyn-lywydd Plaid Cymru a gwleidydd hynod graff a'i wraig Elinor Bennett y delynores hynod ddawnus a fu'n hybu canu'r delyn dros y blynyddoedd. Buodd yn ddisgybl i'r telynor enwog Osian Ellis a hithau yn ei thro wedi meithrin pobl megis Sioned Williams a Catrin Finch. Buodd yn gyfrifol am drefnu Gŵyl Delynau Ryngwladol Cymru yn y Galeri yng Nghaernarfon bum gwaith a hefyd bu'n ddiwyd yng Nghanolfan William Mathias ym Mangor. Eleni, yn ystod yr Ŵyl hon cyflwynwyd darlun ohoni i Elinor a gomisiynwyd oddi wrth yr arlunydd enwog David Griffiths Caerdydd ond gynt o Bwllheli fel gwerthfawrogiad o'i holl ymdrechion dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da i Elinor a Dafydd ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod mis Mai cafodd disgyblion Ysgol Gymraeg y Trallwng sy'n amddiffyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr adeilad newydd sbon ar eu cyfer ar ôl bod mewn adeilad hen ac anaddas ar gyfer y ganrif hon ers ei sefydlu nôl yn 2017. Ar hyn o bryd mae dros bedwar ugain o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol a'r galw am addysg Gymraeg yn yr ardal ar gynnydd.

Ysgol Gymraeg arall a symudodd i adeilad newydd sbon ym mis Mai ydy Ysgol Gymraeg Sant Baruc y Barri a adawodd adeilad o Oes Fictoria i fwynhau holl gyfleusterau modern y safle newydd.

Mae hanes addysg Gymraeg yn y Barri yn mynd nôl i 1951 pan ddaeth criw bach o Gymry'r Barri ynghyd yn nhŷ Dan Evans a'i briod sef rhieni Gwynfor Evans, Llywydd Plaid Cymru yn ei ddydd. Penderfynodd y criw wneud cais i'r Awdurdod Addysg am sefydlu Ysgol Gymraeg yn y dre ond gwrthodwyd y cais. Felly, yn lle rhoi'r ffidil yn y to, dyma nhw'n sefydlu Ysgol Gymraeg Breifat yn y dre a thalu cyflog athrawes o'u pocedi eu hunain. Yna, wedi rhagor o ymgyrchu brwd ildiodd yr Awdurdod a sefydlwyd Ysgol Gymraeg San Ffransis. Ers hynny mae addysg Gymraeg yn y Barri a'r Fro wedi datblygu a ffynnu.

Dwy'i eisoes wedi sôn yn y golofn hon am broblemau Maes Awyr Caerdydd ond yn ddiweddar cafwyd newyddion gwell gan i gwmni hedfan dechrau trefnu teithiau o'r maes awyr i Baris yn ddyddiol â chwmnïau eraill wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r Maes Awyr ac felly ar hyn o bryd mae'r dyfodol yn ymddangos yn oleuach hefo llawer mwy o deithwyr yn dewis hedfan o Gaerdydd.

Ni allaf ddod â'r golofn hon i ben y tro hwn heb longyfarch tîm pêl-droed Wrecsam sy wedi rhoi'r ddinas a Chymru ar fap y byd. Sefydlwyd y clwb nôl yn 1864 sef blwyddyn cyn i long y Mimosa hwylio o borthladd Lerpwl am Batagonia a Chlwb Wrecsam ydy'r Clwb pêl-droed hynaf yng Nghymru. Fe'i prynwyd gan ddau actor enwog o Galiffornia tua dwy flynedd yn ôl ac mae'r Clwb wedi mynd o nerth i nerth ers hynny a choron y tymor ym mis Mai odd y ffaith i'r tîm ennill yr hawl i esgyn i gynghrair uwch y tymor nesa. Felly, ymlaen Wrecsam a phob lwc!

# Teyrnged i Illtyd Lloyd

Trysorydd craff, athro Ysgol Sul dylanwadol, Diacon Anrhydeddus, urddasol ond yn fwyaf arbennig, ffrind annwyl oedd Illtyd i ni, ei gyd-aelodau yng nghapel y Tabernacl, yr Ais. Nepell o'i filltir sgwâr yng Nghwmafan, astudiodd ym Mhrifysgol Abertawe, gan ennill sawl gradd yno. Bu'n athro Mathemateg yng Nghaerdydd ac yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Howardian. Ond treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa broffesiynol o fewn yr Arolygiaeth Addysg yng Nghymru gan wasanaethu fel prif arolygydd. Gwelodd bwysigrwydd hybu'r iaith Gymraeg ar bob cyfle ac roedd ei gyfraniad i dwf addysg cyfrwng-Cymraeg yn allweddol i ddatblygiad a chynnydd yr ysgolion hynny. Mawr yw ein dyled iddo a diolchwn am flynyddoedd o wasanaeth diflino i'r eglwys.

Yr oedd Aelod Canol De Cymru Rhys ab Owen wedi talu teyrnged i Illtyd yn y Senedd. Dywedodd:

*Mae ymgyrchwyr yn hanfodol i unrhyw genedl iach, ond yr un mor bwysig, byddwn i'n ei ddweud, yw'r gwladgarwyr hynny sy'n gweithio oddi fewn y system i'w newid a'i gwella. Un yn perthyn i'r ail gategori oedd Illtyd Rhys Lloyd, a fuodd farw wythnos a hanner yn ôl.*

*Yn frodor o Gwmafan, roedd wedi ei drwytho yn y traddodiadau Cymreig, sosialaidd ac anghydffurfiol. Wedi cyfnod fel dirprwy bennaeth yn un o ysgolion mawr Caerdydd, fe'i apwyntiwyd i'r arolygiaeth addysg ym 1964 a buodd yno tan ei ymddeoliad fel prif arolygydd ysgolion ym 1990. Yn ei gyfnod fel prif arolygydd, fe weithiodd y sosialydd yma o Gwmafan yn agos ac yn effeithiol iawn gyda Syr Wyn Roberts, Nicholas Edwards a hyd yn oed Margaret Thatcher, o bawb.*

*Dyma ddywed y cyn-brifathro Dr Huw Thomas yn ei lyfr, Brwydr i Baradwys, ar dwf addysg Gymraeg yn y de-ddwyrain, am Illtyd Lloyd:*

*Ni chollai gyfle i hybu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog, weithiau drwy godi sgwrs broffesiynol mewn ysgol er mwyn gwthio'r ffiniau, bryd arall drwy weld potensial deddf newydd ac awgrymu ffyrdd ymarferol ymlaen. Gweithredu bob tro y deuai cyfle oedd un o'i nodweddion.*

*Pan wnaeth Illtyd ymddeol, fe wnaeth e roi gwybod i'r awdurdodau yn Whitehall nad oedd diddordeb ganddo mewn derbyn gong, ond roedd yn ddigon hapus i gael ei anrhydeddu gan yr Orsedd a chan Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae byd addysg, yr iaith Gymraeg a'r Bedyddwyr wedi colli cyfaill mawr ym marwolaeth Illtyd Lloyd. Braint heddiw yw ei goffau ar lawr y Senedd.*

# Clwb Canna

Mae'r Clwb yn mynd o nerth i nerth!

Unwaith eto, cafwyd noson arbennig ddechrau mis Mai. Roedd y Clwb Rhyddfrydol yn llawn eto ar gyfer gig gyda Morgan Elwy a Mared. Dechreuodd y noson gyda Mared Williams yn swyno'r gynulleidfa gyda'i sain arbennig. Am lais, ac am berfformiad! Dyw'r Clwb erioed wedi bod mor dawel ag yr oedd ar ddechrau'r digwyddiad hwn, a thrwy gydol yr amser roedd Mared ar y llwyfan. Roedd yn wefreiddiol, yn gymysgedd o ganeuon adnabyddus ac ambell un fwy newydd.

Yna, camodd Morgan Elwy a'r band i'r llwyfan, a sôn am newid tempo! Roedd y perfformiad yn hwyliog a chyffrous ac eto'n gymysgedd o hen ffefrynnau a chaneuon newydd. Unwaith eto, band arbennig sy'n gwybod yn iawn sut i ddiddanu cynulleidfa a chyflwyno sioe werth chweil. Roedd yn amlwg bod pawb yn mwynhau.

Yna, i gloi'r noson, cawsom y pleser o Mared a Morgan yn cyd-ganu. Dyna'r diweddglo gorau y gallai rhywun ei obeithio, ac roedd yn wych gweld gwerthfawrogiad y gynulleidfa, oedd wirioneddol wedi mwynhau'r noson.

Diolch i'r holl artistiaid, ac i'r gynulleidfa am bob cefnogaeth i Glwb Canna. A diolch yn fawr i'r ffotograffydd swyddogol, @irfonbennett.com.

Yn sgil y llwyddiant a'r bwrlwm hwnnw, mae'r Clwb yn falch o gyhoeddi ei fod am barhau i gynnal gigs byw gydag artistiaid gwych yng Ngorllewin Caerdydd. Bydd y gig nesaf nos Wener 14 Gorffennaf, yn Neuadd Eglwys St Catherine's, Ffordd y Brenin, Pontcanna, gyda Bronwen Lewis. Mae'r tocynnau i gyd eisoes wedi gwerthu.

Ar 27 Hydref, cynhelir gig gyda Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas yn y Clwb Rhyddfrydol. Bydd tocynnau ar werth o Siop Caban, Pontcanna neu drwy Ticketsource yn ôl yr arfer. Cadwch eich llygaid ar agor!

*Glenys Llewelyn*



*Mared a Morgan Elwy a'r Band*
*Llun: Irfon Bennett*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, 21 Mawrth, daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i wrando ar yr awdur, Alun Gibbard, yn traethu ar 'Carwyn James: Popeth ond y Rygbi'. Cawsom glywed am berthynas Carwyn â chynefin y teulu yn Rhydlewis, ac am ei yrfa wrth gyflawni ei Wasanaeth Cenedlaethol yn y Llynges fel aelod o griw dethol y Joint Services School of Languages, lle y daeth yn feistr ar iaith ac arferion Rwsia. Yn y man daeth yn un o glustfeinwyr GCHQ, yn rhan o ymdrechion arweinwyr Prydain i ddeall pob agwedd ar fywyd yn Rwsia, yn unol â gofynion y Rhyfel Oer.



*Eirian Edwards, Geraint Lewis a Shirley Williams*



*Dwyfor Jones, Shirley Williams a'r Dr Hefin Jones*

Bu Alun hefyd yn pwyso a mesur y ddeuoliaeth a amlygai Carwyn wrth, er enghraifft, ar y naill law, benderfynu ymuno â'r Lluoedd Arfog, ond arddel, ar y llall, gymhellion heddychiaeth fel crefyddwr pybyr. Clywsom sut y gwnaeth atgofion o'i blentyndod ei swyno ar hyd ei oes a sut y bu diwylliant a bywyd crefyddol ei gynefin yn ddylanwad cryf arno.

Ar ôl blynyddoedd pleserus ar staff Coleg Llanymddyfri a Choleg y Drindod, Caerfyrddin gadawodd Carwyn y byd addysg i fynd yn ddarlledwr a newyddiadurwr amser llawn - datblygiad a fu'n niweidiol i'w iechyd. Er hynny yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd ddwy flynedd ddymunol tu hwnt fel hyfforddwr tîm rygbi Rovigo yn yr Eidal. Tra roedd yno dysgodd Eidaleg yn rhugl a chael ei swyno gan wahanol agweddau ar ddiwylliant y wlad honno.

Cyfeiriwyd at y llwyddiant a gafodd fel hyfforddwr rygbi ac at y diffyg cydnabyddiaeth a roddwyd iddo gan selogion y gêm yng Nghymru. Cafwyd disgrifiad o ddyddiau olaf Carwyn, gan gyfeirio at yr hyn yr oedd yn ei ddioddef yn gorfforol oherwydd clefyd ar ei groen, yn ogystal â'r problemau emosiynol oedd yn pwyso arno yn sgil beichiau yn ymwneud â'i rywioldeb.

Ar nos Lun 17 Ebrill croesawodd ein Cadeirydd Shirley Williams ein gŵr gwadd, y cerddor Geraint Lewis. Wrth ei gyflwyno, dywedodd fod Geraint yn gerddor creadigol o'r radd flaenaf ac wedi cyfansoddi darnau fu'n rhan o ddigwyddiadau allweddol a hanesyddol y ganrif hon, a braint oedd ei groesawu i'r Gymdeithas.

Daeth yn amlwg yn fuan iawn fod gwybodaeth gerddorol Geraint mor eang, a hynny ers ei ddyddiau cynnar pan gafodd anrheg gan ei rieni, llyfr o gyfres *Ladybird, Six Famous Musicians.* Yn ei ffordd ddihafal ei hun aeth â ni ar daith drwy ddarlunio bywydau pedwar o gewri cerdd Cymru sef Joseph Parry, Morfydd Llwyn Owen, Grace Williams a Dilys Elwyn Edwards. Diolchwyd iddo gan Eirian Edwards. Ar ddiwedd y noson mwynhawyd paned a chyfle i gymdeithasu i gwblhau'r noson.

Ar nos Lun 15 Mai cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ac fe ddiolchodd ein Cadeirydd i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Cyflwynodd ein Trysorydd Dwyfor Jones yr Adroddiad Ariannol ac fe etholwyd y Swyddogion a'r Pwyllgor am flwyddyn arall.

Yna croesawodd ein Cadeirydd ein gŵr gwadd, y Dr Hefin Jones. Wrth ei gyflwyno, dywedodd fod ein gŵr gwadd yn academydd o'r radd flaenaf ac yn cyfrannu'n helaeth iawn i ddatblygiadau gwyddonol Cymru a'r byd, a braint oedd ei groesawu i'r Gymdeithas.

Yn gyntaf aeth Dr Hefin Jones â ni am dro i'w ardal enedigol sef Pencader, a darluniodd hanes a gwerthoedd yr ardal a'r hyn a luniodd ei gymeriad a'i ddiddordebau ef ei hun. Aeth ei sgwrs ymlaen i ddisgrifio rhai o'r problemau gwyddonol sy'n wynebu ein byd gan bwysleisio yr angen am ddatrysiad buan i'r problemau hyn, megis cynhesu byd-eang a'r newidiadau yn y tywydd. Diolchwyd iddo gan ein Trysorydd Dwyfor Jones. Ar ddiwedd y noson mwynhawyd paned a chyfle i gymdeithasu i gwblhau'r noson.

## Dathlu yn Nhafwyl

Bydd dathliadau'r *Dinesydd* yn hanner cant oed yn parhau yng ngŵyl Tafwyl ym Mharc Bute.

Byddwn yno i ddathlu am awr ar fore Sul, 16 Gorffennaf, rhwng 11.30 - 12.30.

Y bwriad yw cyflwyno pobl *Y Dinesydd*, mwynhau cerddoriaeth a blasu teisen dathlu'r 50.

Croeso cynnes i bawb.

Ceir cadarnhad o'r uchod yn rhifyn Gorffennaf / Awst o'r *Dinesydd.*

# Merched y Wawr Caerdydd

Ar noson oer, wyntog, cawsom gwmni difyr yr Athro Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Dylan yn hanu o Dywyn, Meirionnydd ac ar ôl astudio yng Nghaergrawnt ac Aberystwyth, ymsefydlodd yng Nghaerdydd yn 1998. Ei brif faes arbenigol yw barddoniaeth yr Oesoedd Canol ac mae'n canolbwyntio ar lenyddiaeth ganoloesol a'r berthynas rhwng iaith a threftadaeth.

Mae Dylan yn ymddiddori yn y Gymraeg yn yr oes fodern hefyd, ac yn benodol sut mae'r iaith wedi datblygu yng nghyd-destun amrywiol ac aml-ethnig dinas Caerdydd. Testun ei sgwrs oedd 'Menywod a'r Gymraeg yng Nghaerdydd hyd at tua 1920'.




Rhyfedd oedd clywed mai Cymry Cymraeg oedd y rhan fwyaf o boblogaeth Caerdydd tua 200 mlynedd yn ôl. Hyd yn oed pan sefydlwyd y dociau yn y 1840au, gan sbarduno datblygiad diwydiannol dwys, cynyddodd nifer y Cymry Cymraeg. Ond oherwydd y niferoedd yn mewnfudo i'r ardal, gostwng wnaeth y ganran ohonynt ymhlith y boblogaeth. Erbyn diwedd y ganrif, sylweddolwyd bod angen gweithredu i ddiogelu'r iaith a sefydlwyd nifer o fudiadau neu gymdeithasau at y diben hwn. Fel ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus, dynion fyddai'n rhedeg y mudiadau hyn. Eithriad oedd Cymdeithas yr Iforiaid Benywaidd a sefydlwyd yn y 1840au.




Yn gyffredinol, cawsai menywod eu hanwybyddu a'u hymyleiddio ar y llwyfan cyhoeddus oni bai iddynt wneud rhywbeth anarferol (boed da neu ddrwg).

Roedd nifer o fenywod amlwg ym myd addysg a diwylliant, fel yr athrawes ysbrydoledig o Ferthyr, Hannah Williams, yr athrawes a'r nofelydd, Moelona, a'r wraig o Batagonia, Eluned Morgan, a fu'n ddiwyd ym myd addysg Gymraeg ac fel awdur a golygydd.

Roedd cerddoriaeth wrth galon y ffordd Gymraeg o fyw, ac yn 1883, ffurfiwyd y Welsh Ladies Choir yng Nghaerdydd. Cafodd y côr yrfa ddisglair, gan deithio'n helaeth yng Ngogledd America, ennill yn yr Eisteddfod, a pherfformio o flaen Edward VII yng Nghastell Windsor.

Ond ni enillodd pob Cymraes amlygrwydd am ei rhinweddau. Byddai'r wasg yn ymateb yn ffyrnig i unrhyw awgrym o ymddygiad anweddus gan fenywod.

Cawsom gipolwg hynod ddiddorol ar fywyd Cymry Caerdydd yn y 19eg ganrif a phob un ohonom yn ddiolchgar i Dylan am gael dysgu rhywbeth newydd am hanes y ddinas.

Ym mis Mai, daeth Elin Rees, Swyddog Marchnata gyda Dŵr Cymru, i'n diweddaru ar y gwaith adfer ar Gronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Adeiladwyd y cronfeydd yn oes Fictoria i ddarparu dŵr i Gaerdydd. Roeddent yn gyrchfan hwylio a cherdded poblogaidd nes iddynt gau yn 2010. Cyflwynodd Western Power Distribution gynlluniau i adeiladu tai ar y safle, ond gwrthodwyd y cais yn wyneb gwrthwynebiad ffyrnig gan y gymuned a ffactorau amgylcheddol. Mae'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd yr adar sy'n gaeafu yno a'r organeb brin iawn, y ffwng cap cwyr. Yn 2016 prynwyd y safle gan Ddŵr Cymru i'w ddatblygu fel atyniad tebyg i Lyn Brenig, Llys-y-Frân, Cwm Elan a Llyn Llandegfedd.

Bydd y safle 110 erw ar agor drwy gydol y flwyddyn, gyda hyb i ymwelwyr gan gynnwys bwyty â golygfeydd dros y llyn, ystafelloedd newid ac ystafelloedd cyfarfod. Bydd llwybrau troed o amgylch y cronfeydd, gyda chuddfannau adar, parth addysg a pharthau cadwraeth. Cynigir gweithgareddau dŵr fel hwylio, padlfyrddio, ceufadu a chanŵio, ac efallai nofio dŵr agored. Y nod yw agor y safle yn ddiweddarach eleni. Roedd nifer o'r aelodau'n gyfarwydd â'r safle ac yn cofio am ei hanes – diddorol oedd clywed eu straeon a'u hatgofion.

# Digwyddiadau Haf Caerdydd

Gyda Chwpan Rygbi'r Byd yn dechrau yn Ffrainc fis Medi, mae nifer o gemau paratoi wedi'u trefnu ar gyfer y dwsin o dimau cyn y gystadleuaeth fawr. Yng Nghaerdydd, bydd Stadiwm y Principality yn gartref i gynnwrf gelyniaethus Cymru a Lloegr ar 5 Awst, a bydd cyfle arall i'r ddau dîm gipio buddugoliaeth ar 12 Awst yn eu hail ornest. Er yn gystadleuaeth gyfeillgar, mae'r gemau yn addo sioe o ddifyrrwch a chyffro i deuluoedd a ffrindiau oll.

Bydd Stadiwm y Principality hefyd yn gartref i fath wahanol iawn o sioe wrth i rai o gantorion enwocaf y byd deithio i berfformio'u hanthemau ar lwyfan fwyaf y brifddinas. Y band byd-enwog Coldplay sy'n diddanu ar 6 a 7 Mehefin, a'r gantores Gymraeg o Gaerdydd, Hana Lili, ynghyd â'r band synth-bop Albanaidd Chvrches yw'r artistiaid talentog sydd wedi'u dewis i gefnogi'r grŵp ar ei ymweliad. Daw'r daith hon i Gaerdydd bron i 23 o flynyddoedd ers i Coldplay berfformio eu halbwm cyntaf yng Nghlwb Ifor Bach ar 22 Mehefin 2000 – dyma dro ar fyd!

Ymhen pythefnos wedyn, bydd un o gantorion pop enwocaf y sîn, os nad yr enwocaf, Harry Styles, yn cipio'r llwyfan am ddwy noson ar 20 a 21 Mehefin. Mae'r tocynnau'n brin - ac yn ddrud – ond nid yw hyn yn syndod i neb gan y bydd sioe yr Harry Styles ei hun yn brofiad bythgofiadwy i filoedd.

**Efa Prydderch, Blwyddyn 3,**
**Y Gyfraith a'r Gymraeg**

# Colofn Natur

*Yr ystlum pedol leiaf*



**Gethin Jenkins-Jones**

Efo'r gwanwyn yn hebrwng cychwyn newydd i fyd natur, mae pennod newydd hefyd wedi cychwyn i mi yn weddol ddiweddar. Ers i mi sgwennu y tro diwethaf, rwyf wedi cychwyn swydd newydd fel ecolegydd. Yn bennaf rwyf yn mynd i lefydd newydd sy'n cael eu hystyried am gynlluniau gwyrdd fel prosiectau solar a thyrbinau gwynt i weld a oes anifeiliaid prin yna a fydd angen eu gwarchod. Mae wedi bod yn braf gweithio y tu allan ers cychwyn mis Ebrill, yn ymweld â llefydd a phobl newydd, ac yn gweld ambell greadur newydd i mi hefyd. Roeddwn yn lwcus i weld dau bathew rai wythnosau yn ôl, yn ogystal â'r fadfall gribog fawr. Heddiw, fodd bynnag, rwyf am ffocysu ar greaduriaid eraill fy ngwaith - yr ystlumod - a fy hoff un ym Mhrydain, yr ystlum pedol leiaf.



Dim ond dwy ar bymtheg o rywogaethau o ystlumod sydd ym Mhrydain, ond byddwch yn synnu cyn lleied o bobl sy'n medru enwi pob un (nid oeddwn i yn medru gwneud hynny fy hun cyn y pandemig!). Yn ogystal, maent yn parhau i fod yn anifeiliaid gweddol amhoblogaidd hefyd. Hyd yn oed heddiw, mae'r ystlumod yn parhau i fod bach o enigma. Mae yna gymaint am eu hecoleg sy'n ddirgel i ni, ac mae pobl yn tueddu i ofni'r hyn nad ydynt wir yn gwybod. Ac oherwydd eu cysylltiad efo Calan Gaeaf fel anifail brawychus, ac oherwydd y posibilrwydd i Covid ddod oddi wrthynt yn wreiddiol, mae gen i'r teimlad y bydd yn sbel cyn bydd y cyhoedd yn cychwyn twymo tuag atynt. Mae hyn yn siom, oherwydd maent yn hynod o ddiddorol. I gychwyn, maent yn rhan o grŵp bach iawn (o dri) o fertebratau sydd wedi llwyddo i esblygu i hedfan, a gwnaethant lwyddo i wneud hyn mor gyflym wedi oes y dinosoriaid ni wnaethant roi'r cyfle i famaliaid eraill esblygu hedfan hefyd. I gymharu â mamaliaid eraill o'r un maint, mae ystlumod hefyd yn medru byw am gyfnod hynod o hir. Mi fydd llygoden yn lwcus i gyrraedd dwy oed, ond mae ein hystlumod yn aml yn medru byw am dros ugain mlynedd. Maent hefyd yn anifeiliaid cymdeithasol, efo rhai yn clwydo yn eu cannoedd.



Yr ystlum pedol leiaf yw fy ffefryn, felly pam hynny? Wel, mae llawer o ystlumod Prydain yn edrych yn weddol debyg, efo sŵn tebyg, neu yn andros o brin. Ond nid ydy'r ystlum pedol leiaf fel hyn o gwbl (er y bydd rhaid mynd i hanner deheuol Cymru i'w gweld). Rydym yn lwcus i gael yr anifail yma yn ein gwlad oherwydd mae ganddynt ecoleg a ffisioleg hynod ddiddorol yn fy marn i. I gychwyn maent yn andros o fach, efo maint corff tua hyd bys bawd, ac efo pwysau tebyg i geiniog neu ddarn punt. Yn gyffredinol mae ganddynt ffwr brown golau, clustiau hynod o hir a thrwchus, a thrwyn siâp pedol. Mae'r drwyn yma yn sesil iawn. Mae rhan fwyaf o ystlumod y byd yn gwneud sŵn clician o'u cegau, sydd yna'n bownsio oddi ar eu hysglyfaeth i'w clustiau sy'n eu galluogi i'w 'weld', a'u dal. Ond mae'r ystlum yma, a'u perthnasau cyfagos, yn medru gwneud y fath sŵn drwy eu drwynau. Dwi'n eich annog chi i gyd i wrando ar recordiad ar-lein o'r sŵn maent yn creu - sŵn tebyg i UFO!

Mae gweld ystlum pedol leiaf yn arwydd bod yr ecosystem leol yn un iach, felly dylai fod yn bleser ei gweld pob tro. Maent yn hoff iawn o goedwigoedd cymysg, o ran rhywogaeth, oed a thaldra, felly mae'n anffodus bod cryn dipyn yn llai o'r math yma o gynefin yn bodoli nag y byddech yn dychmygu y dyddiau yma. Prif eitem ei diet yw pryfed, a phob nos yn ystod y gwanwyn a'r haf mi fydd rhaid i bob un ohonynt fwyta tua hanner maint eu cyrff i oroesi. I'r ystlum pedol leiaf mae hyn yn golygu bwyta cannoedd o bryfed pob nos!

Mae llawer o ddatblygwyr yn gobeithio na fydd yr ystlum yma yn cael ei ddarganfod yn byw ar eu tir, yn bennaf i arbed yr holl waith papur a'r arian sydd eu hangen i'w gwarchod. Ond mae gen i obaith y bydd pawb yn dathlu eu cael ar eu tir yn y dyfodol, oherwydd fel pob anifail, mae ganddynt fywydau hynod o drawiadol ac addasiadau unigryw. Dim ond addysg well sydd ei angen.

# Gwenyn yn Cwrt Insole

Os oes diddordeb gennych ym mywyd cyfrinachol yr *Apis mellifera*, gwenyn mêl, ewch draw i Gwrt Insole yn Llandaf. Yno, yn y Cwrt Llaeth caeedig, mae yna gwch efo ffenest sy'n eich galluogi i weld gwenyn yn ddiwyd wrth eu gwaith, o ddiogelwch ystafell gerllaw.

Yn y cwch ceir un frenhines, tua 50,000 o wenyn benywaidd anffrwythlon (y gweithwyr), a thua 300 o wenyn gwrywaidd (y 'drones'), sy'n gwneud dim ond aros am siawns i baru efo brenhines ifanc o gwch arall. Mae brenhines yn dodwy tua 1,500 o wyau pob dydd yn y blwch dodwy, ac uwchben hwn mae'r siwpers lle mae'r gwenyn yn gosod mêl mewn fframiau. Fel arfer, bydd digon o fêl wedi'i osod ar gyfer ei gasglu ddwywaith y flwyddyn. Gwerthir y mêl yn y siop gerllaw fel Mêl Cwrt Insole.

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae yna wastad risg bydd tua hanner y gwenyn yn y cwch yn heidio ac yn hedfan i ffwrdd gyda'r frenhines er mwyn dod o hyd i lecyn neu simnai i sefydlu cytref newydd. Ond cyn heidio, fe fyddent wedi sicrhau bod larfa wedi cael ei baratoi mewn dull arbennig er mwyn cynhyrchu brenhines newydd i gynnal yr hen gytref yn y cwch gwreiddiol.

Mae mis Mai eleni wedi bod yn brysur iawn efo gwenyn yn heidio. Gwelir yn y lluniau fy ymdrechion i ddelio efo haid ar goeden yn Nghwrt Insole ac mewn simnai cymydog.

Sawl gwaith y flwyddyn, cynhelir dyddiau agored gydag atyniadau amrywiol yng Nghwrt Insole. Ar y dyddiau hyn, ceir cyfle i weld sioe sleidiau ar gadw gwenyn efo manylion sut y gallwch chi hefyd fod yn wenynwr neu'n wenynwraig. Ond byddwch yn ofalus - gall y diddordeb droi'n obsesiwn!

*Alun James (Alun Bees)*





# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Cynhaliwyd cinio olaf ein tymor ddydd Llun, 8 Mai. Ein siaradwr gwadd oedd Geraint Talfan Davies. Cawsom anerchiad diddorol iawn yn ymhelaethu ar gynlluniau uchelgeisiol ym Merthyr, sef cynlluniau i adfywio a datblygu Castell Cyfarthfa a'r tiroedd o'i gwmpas.

Gweledigaeth Sefydliad Cyfarthfa yw creu atyniad o arwyddocâd rhyngwladol fydd yn denu torfeydd o ymwelwyr. Yr un pryd maent yn bwriadu creu parc eang fydd yn gyrchfan i drigolion yr ardal ac hefyd yn adnodd i gynnal digwyddiadau sylweddol.

Roedd y cyfarfod yn agor drws ar dymor newydd, wrth i Gwynn Angell drosglwyddo'r awenau i'n llywydd newydd. Arwel Ellis Owen. Bydd ei dymor newydd yn cychwyn ar 2 Hydref.

Os hoffech wybod am y cyfarfodydd yn y dyfodol, danfonwch eich cyfeiriad e-bost at ein hysgrifennydd, paulmorgan@ntlworld.com neu ffoniwch Paul ar 029 20731211.


*Gwyn Angell, Geraint Talfan Davies ac Arwel Ellis Owen*

## Doethuriaeth Gemeg gyntaf drwy'r Gymraeg - Owain Beynon

*Yn ddiweddar cwblhaodd Owain ddoethuriaeth gyfrwng-Cymraeg gyntaf Ysgol Cemeg Prifysgol Caerdydd. Mae bellach yn ymchwilydd ôl-ddoethurol yng Ngholeg Prifysgol Llundain.*

Mae yna gamsyniad mai Saesneg yn unig yw iaith gwyddoniaeth a bod y Gymraeg yn iaith ar gyfer y celfyddydau neu'r capel. Fel cenedl mae ein diwylliant gwyddonol yr un mor gyfoethog â'n diwylliant celfyddydol. Drwy wneud doethuriaeth dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol roedd cyfle i mi herio'r camsyniad hwn ac ymchwilio pynciau gwyddonol difyr iawn drwy gyfrwng fy mamiaith. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin, mynychais ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg. Astudiais bob pwnc, gan gynnwys Cemeg, drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ar yr adeg yna enynnwyd fy niddordeb mewn Cemeg. Felly, roedd dychwelyd i wneud fy noethuriaeth yn Gymraeg wedi i mi gyflawni fy ngradd meistr yn gam naturiol.

Pwnc fy noethuriaeth, sef 'Astudiaeth Gyfrifiadurol o Synthesis a Sefydlogrwydd Defnyddiau Mandyllog Anorganig', oedd archwilio sefydlogrwydd a ffyrdd amgen o greu defnyddiau mandyllog, sy'n cael eu defnyddio yn y sector ynni. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dulliau cemeg cyfrifiadurol sef ffordd o efelychu systemau cemegol megis defnyddiau mandyllog ar y raddfa atomig ac electronig. Ymhlith y defnyddiau archwiliais oedd seolitau, sy'n cael eu defnyddio'n eang ym maes catalysis. Catalysis yw'r astudiaeth o ddefnyddiau sy'n cynyddu cyfradd adweithion cemegol, ar gyfer creu cemegion gwyrdd a chynaliadwy, er enghraifft. Felly, mae cryn ddiddordeb mewn astudio a deall priodweddau'r defnyddiau hyn, wrth i gymdeithas geisio cyrraedd y nod o atal effeithiau newid hinsawdd.



Mae llawer o ddisgyblion yn dewis neu yn meddwl bod rhaid iddynt astudio'r gwyddorau yn Saesneg os ydynt am yrfa wyddonol. Nid yw hyn yn wir; mae llawer o ymchwil arloesol yn cael eu cyflawni gan wyddonwyr o Gymru. Llynedd mynychais gynhadledd wyddonol a drefnwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, lle buom yn trafod ymchwil a phynciau gwyddonol cyfoes gyda chemegwyr eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gobeithiaf y bydd fy mhrofiad yn sbarduno eraill i barhau gyda'u haddysg wyddonol a gwneud gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Tro pedol i drefniadau'r Eisteddfod Genedlaethol

Fe fydd nifer yn bles i glywed am dro pedol trefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol a olyga newid i drefn cystadlu Eisteddfod Genedlaethol Boduan eleni, yn groes i'r hyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth sef y byddai cystadlaethau'r corau yn digwydd yn ystod yr wythnos, yn hytrach na'r dydd Sadwrn cyntaf fel o'r blaen, ac y byddai'n rhaid i gorau wneud rhagbrawf mewn un pabell cyn i'r enillwyr yn unig berfformio yn y Pafiliwn.

Penderfynwyd newid y rhaglen gystadleuaeth yn sgil trafodaethau gyda'r panelau canolog, y Pwyllgor Diwylliannol a'r Bwrdd Rheoli, ynghyd â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y corau. Dywedodd trefnwyr y Brifwyl eu bod yn deall pryderon y corau ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r cwynion a godwyd gan y grwpiau torfol yn yr adran gerddoriaeth. Dywedodd hefyd mai datrysiad un-tro ar gyfer eleni yn unig oedd, ac y bydd trafodaethau dros y misoedd nesaf i sicrhau chwarae teg i bawb ar draws pob disgyblaeth erbyn Eisteddfod y flwyddyn nesaf.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi dweud nad ydynt yn bwriadu gwneud unrhyw sylw pellach ar y mater. Bydd trefnwyr yn trafod rhaglen Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau chwarae teg i bob cystadleuydd yn yr ŵyl. Byddant yn trafod rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda'r pwyllgorau, panelau a'u partneriaid er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Mae rhai unigolion wedi siomi gyda'r newidiadau ac yn dadlau bod angen sicrwydd ar y newidiadau hyn gan nad ydynt yn dymuno colli cyfle i ymddangos ar y brif lwyfan. Ym marn cyn-drefnydd y brifwyl, mae cwestiynau yn parhau ynghylch trefniadau Eisteddfod 2024.

**Lowri Davies, Blwyddyn 3,**
**Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Diwylliant**

# Diwrnod  Gwobrwyo  CRICC Caerdydd, 21 Mai 2023

Gyda`r haul yn gwenu a`r plant yn chwarae ar Faes Diamond yn yr Eglwys Newydd, braf oedd gweld gwobrwyo`r goreuon ar ddiwedd tymor arall.









Uchod o'r chwith i'r dde:
dan 8 Tom Cooper, 4ydd o`r dde yn y rhes flaen
dan 9 Evan Statton
dan 10 Harri Matthews

Ar y chwith:
dan 7 Marcus Poulton Ch.y Flwyddyn 2023
Ar y dde: dan 14 Gethin Deane



Fel y gwyddoch erbyn hyn mae`n siŵr, Glantaf enillodd Gwpan Ysgolion Prydain Dan 14. Roedd Gethin Deane yn un o 14 aelod CRICC Caerdydd oedd yn y garfan o 23.
Aeth Glantaf i chwarae`r gêm derfynol yn erbyn Rugby  School - man geni`r gêm - lle`r oeddent yn dathlu 200 mlwyddiant o sefydlu`r ysgol, a`u trechu ar eu tomen eu hunain!
Isod mae llun o garfan Ysgol Glantaf a enillodd Gwpan Blwyddyn 9 Ysgolion Caerdydd. Mae`r cwpan yn nwylo'r capten, Evan Jenkins, aelod arall  o CRICC Caerdydd.

Ar y clawr, mae carfan Dan 14 CRICC Caerdydd a enillodd Ŵyl Rygbi Trefynwy ym mis Ebrill







*Chwaraewr  y  Flwyddyn*
Dan 11   Rhys Howard a Jac Witchell
Dan 12   Charlie Parsons
Dan 13   Meredydd Ifan
Dan 15   Will Adams
Dan 16   Tom Cadman

Enillydd Cwpan CRICC Caerdydd yw Thomas Howe, Capten Ysgolion Caerdydd Dan 15.
Mae llun o Thomas Howe ar y chwith ac ar y dde mae un o`r ddau enillodd Chwaraewr y Flwyddyn Dan 11, sef Jac Witchell. Jac yw capten Ysgolion Caerdydd Dan 11.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

*John Parry-Jones sy'n cloriannu rhai o gemau'r Clwb Rygbi tuag at ddiwedd y tymor ac yn talu teyrnged i un o hoelion wyth y Clwb*

Gyda mis Mawrth caled o'n blaenau, roedd yn bwysig cael dechrau positif, a chafwyd hynny mewn gêm gystadleuol yn erbyn Pen-y-graig ar gaeau Pontcanna. Dechreuodd y Clwb ar dân, ac o fewn pum munud ro'n ni wedi croesi am gais a chyn hir ar ôl dau gais arall roedd mantais o 17-3 i ni. Ond wedi cyfnod o bwyso a chais gosb i'r ymwelwyr, ar yr egwyl roedd y fantais lawr at saith pwynt. Y Clwb reolodd drydydd chwarter y gêm ac roedd y fantais o 23-10 yn edrych yn gyffyrddus. Ond roedd pac Pen-y-graig wedi bod yn gryf drwy gydol y gêm, a chyda pum munud yn weddill, daeth trosgais â'r ymwelwyr nôl o fewn un sgôr. Diolch i'r drefn, gorffennodd y bechgyn y gêm yn gryf, a chyda dau gais hwyr, roedd y fuddugoliaeth a phwynt bonws wedi ei sicrhau. O bosib, perfformiad mwyaf cyflawn y tymor, a buddugoliaeth haeddiannol.

Daeth mis Mawrth i ben gyda dwy gêm gartref yn erbyn timoedd oedd yn cystadlu am ddyrchafiad, felly cyfle perffaith i fesur datblygiad a chynnydd y Clwb. Mewn gêm dan y llifoleuadau, Penarth, oedd yn hedfan ar frig y tabl, oedd yr ymwelwyr. Mewn gêm agos a digyfaddawd, y Clwb oedd ar y blaen am adegau hir, ac wrth i'r cloc droi'n goch, ro'n ni'n dal gafael ar fantais o un pwynt. Ond cosbwyd y bechgyn yn lein ola'r gêm, a chipiodd Penarth y fuddugoliaeth o 28-26 gyda chic gosb hwyr. Siom anferth i ni i gyd, ond tystiolaeth eto o gynnydd y bechgyn drwy'r tymor yn tanlinellu nad oes rhyw lawer yn gwahaniaethu timoedd yr adran. Tanlinellwyd hyn yn bellach ar Sadwrn olaf mis Mawrth wrth i Lanharan ymweld â ni. Ro' ni wedi rhoi gêm a hanner iddyn nhw ar eu cae nhw ym mis Chwefror, ac er colli eto, o 30-19 y tro hwn, roedd yn berfformiad canmoladwy arall.

Ers diwedd mis Mawrth bu nifer o gemau gan y Clwb a chafwyd canlyniadau cymysg. Er y cafwyd rhai canlyniadau siomedig gan gynnwys colli'n drwm yn erbyn Penarth, cafwyd ambell i fuddugoliaeth nodedig gan gynnwys curo'r Tyllgoed o 44-12. Llwyddodd y Clwb i orffen y tymor yn seithfed gydag wyth buddugoliaeth, un gêm gyfartal a cholli 13.

Daeth newyddion trist ddiwedd y mis, wrth glywed am farwolaeth Dafydd Hywel, neu DH i bawb. Roedd DH wedi bod yn chwaraewr dros y Clwb, ac roedd yn hyfforddi wrth i mi ymuno ym 1983. Roedd ei frwdfrydedd a'i angerdd at y Clwb yn amlwg. Roedd yn un o'r wynebau cyntaf a welais pan ymunais â'r Clwb, ac ysgrifennais rywdro am y noson gyntaf hwnnw o ymarfer, "Yr ofn mwyaf oedd na fyddai neb yn siarad neu'n cynnwys fi yn yr ymarfer. Fe ddylwn fod wedi gwybod yn well. Un o'r wynebau cyfarwydd oedd wyneb Dafydd Hywel, yr hyfforddwr ar y pryd. Roedd y croeso ganddo fel petai'n croesawu un o'i deulu. 'Dw'i ddim yn meddwl y cafodd unrhyw unigolyn gymaint o effaith bositif ar y clwb nes i Neil Cole gyrraedd dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach".

Welais i e erioed yn chwarae, ond galla i feddwl na chymerodd gam yn ôl yn erbyn unrhyw un, ond roedd e hefyd yn hyfforddwr craff a dyfeisgar iawn. Wrth i mi sôn am drip gêm gwpan i Glyncorrwg "....aeth DH i'w gweld yn chwarae ymlaen llaw. I fod yn deg, roedd flynyddoedd o flaen ei amser. Sylweddolodd fod gan Glyncorrwg bac mawr, a chefais orchymyn ganddo i gymryd unrhyw gic cosb yn gyflym - tap and go - er mwyn eu troi nhw a'u blino. Erbyn y nawdegau, byddai pawb yn defnyddio'r dacteg hon i gyflymu gêm". Mae cydymdeimladau'r Clwb cyfan gyda theulu DH.

Dwi hefyd am gymryd y cyfle i ddymuno gwellhad buan wedi llawdriniaeth ddiweddar i Brian Sullivan, un o'r rhai prin hynny sydd wedi bod yn chwaraewr y flwyddyn ar ddau achlysur.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar hyd Ebrill a Mai cafodd aelodau'r Aelwyd gyfle i fwynhau sesiynau cymdeithasol pob pythefnos a chinio yn y Butcher's Arms, Rhiwbeina. Ynghyd â hynny cafwyd darlith adeiladol iawn gan Kathy Lye o elusen Age Cymru, gan ganolbwyntio ar bob math o ddarpariaethau i'r henoed – o bynciau cymdeithasol i hwyluso bywyd.

Hefyd, croesawodd Mair Morgan (Cadeirydd) Lisabeth Miles, actores enwog sy'n briod â Chris Reich a mam i Lisa ac Anna. Mae'n adnabyddus ar amryw o ddramâu a rhaglenni teledu. Soniodd am ei magwraeth yn y Waunfawr, yn ferch i feddyg, gyda'i brawd a'i chwaer. Cafodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Caernarfon gan ei gorfodi i gydymffurfio ag elfen Saesneg yr Ysgol. Wedi graddio o Goleg Cerdd a Drama, Caerdydd, ymunodd â Chwmni Theatr Cymru. Bu'n actio gyda Rachel Thomas, Charles Williams, Harriet Lewis, Dic Huws ac enwogion eraill.

Wedi i gyfres *Pobol y Cwm* gychwyn yn 1974, daeth Liz yn aelod enwog o'r cast o'r dechrau, fel gwraig Reg Harries yn rhedeg y Deri Arms. Ym 1981, cafodd gyfle i actio cymeriad Margaret Lloyd George yn *Life and Times of David Lloyd George*. Mae hefyd wedi actio mewn rhaglenni ysgolion ac *Awr y Plant*. Mae'n parhau ar *Pobol y Cwm* – ac yn galaru am gyd-actorion fel Christine Pritchard a Dafydd Hywel.

Diolchwyd iddi am ei sgwrs ddifyr iawn.

Cyfarfod nesaf: 14 Mehefin - Te Mefus am 11.00 y bore yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina

*Mor braf yw rhannu o brofiadau gwiw*
*Ac hamddena yng nghwmni cyfeillion triw.*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Cofio dathlu'r 50*

### Gwilym Dafydd

**Cyhoeddusrwydd i'r Dinesydd**
Rwy'n cofio ddechrau Chwefror pan ro'n i'n cydlynu rhifyn dathlu'r *Dinesydd* yn 50 oed ar gyfer rhifyn mis Ebrill – daeth cymaint o gyfraniadau i law fel aeth yn rhifyn Ebrill/Mai yn y diwedd. Meddyliais hefyd – beth am gael ychydig o gyhoeddusrwydd i'r *Dinesydd* wrth gyrraedd yr hanner canrif oed?

Mae hi'n ddigon rhwydd y dyddiau hyn – doedd dim modd i arloeswyr 1973 weithredu fel gwnes i. Anfonais ychydig o negeseuon e-bost i *Golwg, Barn,* Radio Cymru*, Pnawn Da* ac ati. Yn y bôn roedd pawb yn awyddus i gynnig cyhoeddusrwydd i'r *Dinesydd* ac yn ystod Mawrth ac Ebrill cafodd papur bro hynaf Cymru, Eirian, ac yn enwedig fi, fwy na digon ohono!

Profiad diddorol iawn oedd darllen nifer go dda o'r hen rifynnau ac yn enwedig cynnwys y 70au a'r 80au nad oes cof gen i o'u darllen ers degawdau lawer, os yn wir erioed yn achos ambell i rifyn.

A gair bach o ddiolch yma i Penri Williams sydd wedi bod wrthi'n ddiwyd yn y cyfnod diweddar. Rwy'n sylwi erbyn hyn ar ddiwedd mis Mai bod modd darllen 425 o'r 477 rhifyn ar wefan y *Dinesydd* sef dinesydd.cymru. Os cawn ni haf gwlyb, bydd môr o ddarllen diddorol i bawb yma!

**Papurau bro ardaloedd eraill**




Pan ar wyliau yng Nghymru byddaf yn gyson yn prynu copïau o bapurau bro eraill. Mae'n bwysig cefnogi oherwydd gwn o brofiad gymaint o ymdrech sy'n digwydd i'w cyhoeddi! Cawson ni dywydd gwych yn ystod mis Mai pan aethon ni am wythnos o wyliau i Dresaith ac wythnos arall yn Llanfyllin. Dyma ddau le gwych i aros – gobeithio mynd nôl yno yn 2024! Manteision ni ar y cyfle i ymweld â chartref yr emynyddes Ann Griffiths sef Dolwar Fach a chroesi'r ffin i hen dref Croesoswallt. Cawson ni sgwrs fach ddiddorol gyda Lowri Roberts yn siop Cwlwm yn Stryd Bailey. Dyma blwg felly i ambell bapur bro arall a brynais yn ddiweddar ar ein teithiau yn y llun uchod. Bydd sawl papur bro arall yn dathlu'r 50 yn ystod y blynyddoedd nesaf a dymuniadau gorau i chi i gyd pan ddaw hi'n amser dathlu.

**Clwb Gwylio Adar**
Aethom am dro fore Sadwrn, 3 Mehefin yn Fferm y Fforest. Ond yn anffodus bu'n rhaid gohirio bore Sadwrn yn Ebrill a Mai oherwydd tywydd anffafriol – hynny yw, roedd hi'n bwrw glaw gormod! Er, daeth Cenric Evans draw i'r cyfarfod ddechrau mis Ebrill. Roedd e'n awyddus i fwrw ati ond cofiaf i Eirian a fi fynd nôl i'r tŷ i dwymo lan a mwynhau paned o goffi!

**Coffi a Chlonc**
Byddwch yn cofio i ni gynnal sawl cyfarfod yn yr awyr agored yn ystod cyfnod Covid-19 a hynny am resymau digon amlwg. Erbyn hyn ar ddydd Iau rhwng 1 a 2 o'r gloch dyn ni wedi gadael Nero's yn Jâms Hywel a mynd nôl i'r Castell am glonc yn yr awyr agored, ond os digwydd iddi lawio yna mae'r caffi gerllaw yn ddigon hwylus. Yna ar foreau Llun, 10.30-11.30, yng nghwmni'r Awr Hapus, yn lle bod ar Zoom neu yn yr Hollybush, Coryton, medrwn eistedd yn y parc ger llyfrgell yr Eglwys Newydd, yn ystod y misoedd nesaf. Croeso cynnes i bawb i'r oriau wythnosol hyn.

**Ail-ddysgu Cymraeg rhwng Caerdydd ac Awstralia - Marilyn Phillips**
Syniad fy ffrind Isobel o Gaerdydd oedd i ymuno gyda 'Siop Siarad' drwy Zoom. Syniad da!

Cefais fy ngeni yng Nghwm Nedd, a siaradais Gymraeg yn gyntaf 'sbo tua pedair oed. Ces i ysgol feithrin ac ysgol gynradd yn Gymraeg, ond ysgol uwchradd yn Saesneg.

Ar ôl hynny, i Lundain i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol ac arhosais yn Llundain cyn symud i Awstralia – Perth yng Ngorllewin Awstralia – yn 1993.

Erbyn hynny roedd fy Nghymraeg wedi diflannu bron yn llwyr.

Cardiau Nadolig oddi wrth Isobel, (ffrind ers tair blwydd oed!) gydag e-bost, a siarad am ail-ddysgu Cymraeg oedd yn ddigon i 'mherswadio fi i drio'r Siop Siarad ar Zoom.

Rwyf wedi siarad yn y grŵp nawr am tua tair blynedd, a mae'r iaith wedi dychwelyd, gyda help Google ambell waith!

Mae'r grŵp yn ddoniol a diddorol iawn. Does dim pwnc pob wythnos, ond fel mae'r 'athrawes' Linda Gruffudd yn dweud "mae'r iaith yn llifo gyda chlecs a chwerthin!" Llyfrau, ffilmiau, cerddi, rheilffyrdd - mae fy mrawd David yn y grŵp yn beiriannydd rheilffyrdd, a John, aelod arall, yn hoff iawn o drenau.

Bydda i'n dod i Lundain mewn mis, ymweld â theulu yng Nghwm Nedd, ac wedi hynny i Gaerdydd i cael pryd o fwyd gyda'r Siop. Y tro cyntaf i fi a David (sydd yn byw yn Derby) gwrdd â phawb. Rydyn ni'n disgwyl cael amser braf!

Felly, dyna grynodeb o fy antur yn ail-ddysgu Cymraeg - ond mae'r treigliadau mor anodd ag erioed!

*Diolch i Isobel Carter am anfon hwn ymlaen.*

# Ysgol Bro Edern

**Rownd Cymru F1**

Ar 27 Mawrth 2023 roedd y gystadleuaeth *F1 in Schools,* wedi seilio ar y gystadleuaeth Fformiwla 1, lle mae timoedd yn rasio ceir i fod yn bencampwyr y byd. Yn y fersiwn i ysgolion, rhaid i dimoedd o 3-6 ddylunio a chreu car i'w rasio, â chreu brand.

Roedd pedwar tîm o'n hysgol wedi cystadlu yn nau ddosbarth y gystadleuaeth sef Proffesiynol (Tanwen a Hypernova) a Datblygedig (Zylon a Parabolica). Aethant i Abertawe i gystadlu yn Rownd Cymru.

Treuliodd y timoedd fisoedd gan baratoi cyflwyniadau a phortffolios ac - wrth gwrs - y car. Drwy gydol y dydd roedd y timoedd angen mynd i sesiynau barnu gwahanol i esbonio eu gwaith a cheisio ennill pwyntiau. Roedd y pedwar tîm yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith a brand i hybu'r iaith mewn pynciau STEM.

Ar ôl diwrnod cyffrous o rasio a siarad ag ysgolion eraill a'r beirniaid, cafon ni lawer o lwyddiant, gan ennill pump gwobr!

Enillodd y tîm Parabolica y 'Car Datblygedig Wedi'i Beiriannu Gorau' a 'Hunaniaeth Tîm'. Cafodd grŵp Tanwen eu henwebu am dair gwobr wahanol. Enillodd Hypernova y wobr am 'Ymchwil a Datblygiad'. Wedyn daeth y gwobrau terfynol.

Tîm Tanwen ddaeth yn gyntaf yng Nghymru a thîm Hypernova yn drydydd, gyda 15 pwynt rhyngddynt. Mae'r ddau dîm nawr wedi cael eu gwahodd i Rownd y DU. Bydd yn ail siawns i'r ddau gyda Tanwen wedi cystadlu eleni a Hypernova wedi cymryd rhan ar-lein ddwy flynedd yn ôl. Mae'r ddau dîm bellach yn ceisio am siawns i gynrychioli Cymru yn y Rownd Ryngwladol.

Cafodd y pedwar tîm ddigonedd o hwyl a llwyddiant yn y gystadleuaeth gyda phob unigolyn wedi rhoi oriau o waith caled. Dymunwn bob lwc i bob tîm am eu cynlluniau nesaf.

*Carys Williams, Blwyddyn 11*


Tanwen


Hypernova


Zylon


Parabolic

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

Mae'r pwyllgor wrthi'n ddiwyd yn trefnu dyddiad a lleoliad Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd ar gyfer mis Ionawr 2024.

Er mwyn gallu cynnal eisteddfod yn llwyddiannus, mae angen nawdd arnom ni. Ry'n ni'n gwybod ei bod hi'n gyfnod anodd i bawb, a byddem yn gwerthfawrogi nawdd o unrhyw fath!

Felly dyma estyn cynnig i chi noddi ein prif gystadlaethau, neu gynnig nawdd cyffredinol i ni. Efallai eich bod am gynnig gwobr er cof am rywun oedd yn gefnogwr brwd o eisteddfodau lleol. Neu beth am gynnig gwobr i nodi pen-blwydd priodas neu ddyddiad arbennig i chi, eich teulu, neu eich cymdeithas? Neu efallai eich bod chi wedi elwa'n fawr o eisteddfodau lleol yn y gorffennol. Dyma'ch cyfle i dalu'n ôl i'r cenedlaethau nesaf.

Os ydych chi'n gôr, cwmni dawns, clwb Gwawr, cangen o Ferched y Wawr, busnes, cwmni preifat, bwyty, siop neu dafarn, beth am gynnig nawdd ar gyfer cystadleuaeth, neu nawdd cyffredinol? Byddem yn hapus i gynnwys eich logo yn ein rhaglen os byddwch yn ein noddi.


Anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru i fynegi eich diddordeb. Cadwch lygad yn rhifynnau nesaf y *Dinesydd* i gael gwybod am ein beirniaid gwaith cartref, a dyddiad lansio ein rhestr testunau gwaith cartref.

*Sioned Wyn*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 9)

Torrwyd ar y gyfres hon o erthyglau am bwysigrwydd y Barri yn y frwydr dros y Gymraeg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif gan y rhifyn dwbl arbennig o'r *Dinesydd* i ddathlu hanner canmlwyddiant sefydlu'r papur (sef rhifyn Ebrill/Mai 2023), ond dyma ailgydio yn awr yn y gyfres a throi yn benodol at weithgarwch Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg.

Fel yr eglurwyd yn f'erthygl yn rhifyn mis Mawrth eleni, bu cymdeithas Cymrodorion y Barri a'i hysgrifennydd egnïol, D. Arthen Evans, yn allweddol yn y symudiad a esgorodd ar sefydlu Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn 1913. Etholwyd Arthen yn ysgrifennydd cyffredinol yr Undeb, a bu wrth y gwaith hwnnw hyd ei farw yn 1936 yn 58 mlwydd oed.

Fel y nodwyd yn rhifyn Mawrth, gellid dadlau mai Undeb y Cymdeithasau Cymraeg ynghyd ag Urdd Gobaith Cymru a Phlaid Cymru oedd y tri chorff pwysicaf yn y frwydr dros y Gymraeg a Chymreictod yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Arwydd o hynny yw'r ffaith mai dyna'r tri chorff a fu'n gyfrifol am drefnu Deiseb Genedlaethol yr Iaith Gymraeg, a lansiwyd adeg Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1938. Llofnodwyd y ddeiseb honno gan tua 400,000 o bobl, a'r canlyniad fu pasio Deddf Llysoedd Cymru gan Senedd San Steffan yn 1942, deddf a ddiddymodd y 'cymal iaith' yn 'Neddf Uno' 1536 a chaniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn llysoedd yng Nghymru dan rai amgylchiadau.

Yr hyn a oedd yn gyrru'r tri chorff yn eu blaen oedd pryder dros ddyfodol y Gymraeg ynghyd â'r awydd i ennill ymreolaeth i Gymru.

Dywedodd Ifan ab Owen Edwards yn rhifyn Chwefror 1922 o'r cylchgrawn *Cymru* mai ei reswm dros sefydlu 'Urdd Gobaith Cymru Fach' ddechrau'r flwyddyn honno oedd am mai 'tuedd plant ein trefydd, yn enwedig y dyddiau hyn, yw cefnu ar yr iaith Gymraeg'. Rhaid oedd gwneud rhywbeth i atal hynny, meddai. Roedd y ffurflen ar gyfer ymuno â'r urdd newydd honno yn gofyn i'r aelodau addo defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun – ei siarad a'i darllen, canu caneuon Cymreig, chwarae bob amser yn Gymraeg, ac yn y blaen. Ond roedd hefyd yn gofyn i'r plant addo 'peidio gwadu byth mai Cymry ydym, na bradychu ein gwlad ar unrhyw amgylchiad'. Y nod, meddai 'Ifan ab', oedd 'ceisio uno plant Cymru mewn urdd i gynorthwyo ei gilydd i fod yn Gymry pybyr'. Felly, er i wleidyddiaeth gael ei gwahardd o agenda swyddogol yr Urdd o gyfnod cynnar, mae'n amlwg fod cryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol yn rhan o'r weledigaeth o'r dechrau. A diddorol yn y cyd-destun hwnnw yw gweld Ifan ab Owen Edwards yn dadlau yn rhifyn Gorffennaf 1922 o *Cymru* mai anghenraid Cymru oedd 'ymreolaeth a hawl i ddatblygu ei hun yn ei dull ei hun'.

Sefydlwyd 'Plaid Genedlaethol Cymru' yn 1925 â'r nod o ennill ymreolaeth i Gymru, a hynny (yng ngeiriau un o'i sylfaenwyr, Saunders Lewis, yn ei ddarlith gyweirnod *Egwyddorion Cenedlaetholdeb* yn 1926) er mwyn diogelu 'y drychfeddwl a'r diwylliant Cymreig'. Rhan bwysig o hynny oedd gwneud y Gymraeg 'yn unig iaith swyddogol Cymru, yn iaith y llywodraeth yng Nghymru, yn iaith pob cyngor' ac 'yn unig gyfrwng addysg o'r ysgol elfennol hyd at y brifysgol'. Y nod, hefyd, oedd gwneud yr addysg honno'n 'Gymreig [trwy] roi lle blaen yng nghwrs ysgol i lenyddiaeth a hanes Cymru'. Gwelwn, felly, mai un o amcanion canolog y blaid wleidyddol newydd honno oedd sicrhau bod 'ein heniaith fwyn' yn llawn 'hoen' (chwedl Lewis Valentine, un arall o sylfaenwyr Plaid Cymru).

Roedd yr iaith Gymraeg a'i ffyniant yn gwbl ganolog hefyd i weledigaeth a gweithgarwch Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg, fel y dengys y gair 'Cymraeg' (yn hytrach na 'Cymreig') yn ei enw. Nid yw hynny'n syndod o ystyried y sylw a ganlyn am bwysigrwydd y Gymraeg gan J. Tywi Jones (1870–1938), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Glais yng Nghwm Tawe a'r un a awgrymodd sefydlu'r Undeb, a hynny pan oedd ar ymweliad â'r Barri yn 1911. Bu Tywi hefyd yn gefn mawr i'r Undeb dros y blynyddoedd yn rhinwedd ei swydd fel golygydd papur newydd *Y Darian*; ac meddai am y Gymraeg: 'Nid oes dim ynglŷn â chenedl sydd yn bwysicach na'i hiaith. Y mae cyfoeth bywyd a delfrydau cenedl yn drysoredig yn ei hiaith a'i llenyddiaeth.'

Gellid dod o hyd i sylwadau tebyg am y Gymraeg gan Arthen Evans, yr un a aeth â'r maen i'r wal yn dilyn awgrym Tywi trwy drefnu'r cyfarfodydd a arweiniodd at sefydlu Undeb y Cymdeithasau Cymraeg yn 1913. Y Gymraeg yw 'ein trysor pennaf i gyd', meddai Arthen; ond roedd ymgyrchu dros ymreolaeth i Gymru hefyd yn rhan o agenda'r Undeb yn ei flynyddoedd cynnar. Ond newidiodd hynny gyda sefydlu Plaid Cymru, fel y gwelwn oddi wrth lythyr gan Arthen at H. R. Jones, trefnydd cyntaf y Blaid, ym mis Gorffennaf 1925, lle y dywed 'y gall ein Hundeb ni weithio ym myd yr iaith neu yn narn yr iaith o faes mawr cenedlaetholdeb ac y gall y Blaid weithio yn y darn politicaidd'. Roedd 'digon o le i bob un ohonom', meddai.

Roedd dros 70 o gymdeithasau Cymraeg wedi ymuno â'r Undeb o fewn blwyddyn i'w sefydlu. Yn ne Cymru yr oedd y cymdeithasau hynny i gyd bron, a'r rhan fwyaf ohonynt yn y de-ddwyrain, lle yr oedd (yng ngeiriau Arthen yn 1909) 'y llanw Seisnig [yn torri]

megis ton anferth dros yr holl fro'. A mudiad yn neheudir Cymru oedd yr Undeb yn bennaf am flynyddoedd. 'Ni theimla'r Gogledd yr anghenraid am Gymdeithasau [Cymraeg] fel ag y gwna'r De', meddai adroddiad blynyddol yr Undeb am 1919, am na welid fod y Gymraeg dan gymaint o fygythiad yno. Fe fyddai nifer y canghennau o'r Undeb yn mynd ar gynnydd yn y Gogledd yn ystod y 1920au a'r 1930au; ond y gwrthwyneb fu'r hanes yn y De yn yr un cyfnod, oherwydd y dirwasgiad economaidd a'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y de-ddwyrain, nes bod y gweithgarwch yn y Gogledd yn fwy bywiog nag yn y De erbyn i'r Undeb ddod i ben yn 1941, pan ddaeth yn rhan o gorff newydd o'r enw Undeb Cymru Fydd.

Yn sylfaenol, grŵp pwyso oedd yr Undeb i 'sicrhau [i'r Gymraeg a'i llên] eu lle dyladwy ymhob cylch o fywyd Cymru' a 'meithrin yr ysbryd cenedlaethol'. Gweithredai'n genedlaethol ac yn rhanbarthol trwy amrywiol bwyllgorau a chyfarfodydd, ac yn lleol trwy'r cymdeithasau Cymraeg a oedd yn aelodau o'r Undeb.

Rhan bwysig o swyddogaeth yr Undeb, yn enwedig trwy ei gynadleddau blynyddol a'i gyngor cenedlaethol, oedd bod yn gyfrwng i arweinwyr y mudiad cenedlaethol, yn lleol ac yn genedlaethol, rwydweithio a chydsymud. Roedd llawer o'r arweinwyr hynny, fel Arthen a Tywi, yn athrawon ac yn weinidogion, ac nid yw hynny'n syndod oherwydd yn amlach na pheidio gwelwn mai pobl o fyd addysg ac arweinwyr crefyddol yw asgwrn cefn mudiadau cenedlaethol ar draws y gwledydd a'r canrifoedd.

Byddai'r Undeb yn ymgyrchu mewn amrywiol ffyrdd – llythyru a lobïo, cynhyrchu cylchlythyrau a memoranda, trefnu digwyddiadau a chynadleddau, ac yn y blaen – a hynny ar amrywiaeth eang o bynciau yn ymwneud â'r Gymraeg. Gwelwyd eisoes iddo bwyso am yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn, ac ymhlith ymgyrchoedd eraill yr Undeb gellid nodi ceisio cael banciau i gynhyrchu sieciau dwyieithog, dadlau dros gael lle teilwng i'r Gymraeg ar y radio, gofyn am yr hawl i anfon telegramau yn y Gymraeg, annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg wrth gyfeirio llythyrau, ceisio sicrhau hen gartref y bardd Islwyn ar gyfer y genedl, ac yn y blaen.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth cymdeithas Cymrodorion y Barri wedi iddi gael ei sefydlu yn 1906, dan ysgrifenyddiaeth Arthen Evans, oedd casglu £10 – swm sylweddol ar y pryd – er mwyn prynu llyfrau Cymraeg ar gyfer llyfrgell gyhoeddus y dref. Ac fel y gwelwn yn rhifyn Ebrill 1921 o'r cylchgrawn *Cymru*, Arthen oedd un o'r rhai cyntaf i ymateb i apêl gan Ifan ab Owen Edwards yn y flwyddyn honno i bobl ymrwymo i brynu o leiaf un llyfr Cymraeg bob mis. Nid yw'n syndod, felly, weld bod hyrwyddo cyhoeddiadau Cymraeg yn rhan gyson o weithgarwch Undeb y Cymdeithasau Cymraeg dros y blynyddoedd, gan gynnwys cynnal 'Gŵyl Llyfrau Cymru' yng Nghaerdydd a mannau eraill adeg Gŵyl Ddewi rhwng 1930 a 1939, ar ôl i Arthen Evans godi'r mater yn un o bwyllgorau'r Undeb.

Athro ysgol fu Arthen ar hyd ei yrfa, ac fel y gwelwyd yn f'ysgrif yn rhifyn Mehefin 2022 o'r *Dinesydd*, roedd ymgyrchu dros gynyddu'n arwyddocaol y ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion y Barri yn rhan bwysig o weithgarwch Cymrodorion y Barri o'r dechrau. Nid rhyfedd, felly, fod ymgyrchoedd i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ym myd addysg yng Nghymru, a hynny ar bob lefel o'r plant lleiaf hyd at addysg brifysgol ac addysg oedolion, yn ganolog i weithgarwch Undeb y Cymdeithasau Cymraeg ar hyd ei hanes. Ac nid dysgu'r Gymraeg a hybu addysgu trwy gyfrwng yr iaith yn unig, ond hefyd Gymreigio'r maes llafur trwy ymgyrchu dros gael lle teilwng ynddo i lenyddiaeth Gymraeg, hanes Cymru, canu gwerin, ac yn blaen – gan gynnwys celf, fel y gwelwn o'r gyfrol arloesol, *Perthynas y Cain a'r Ysgol* gan yr athro blaengar ac amlochrog hwnnw yn Ysgol Lewis, Pengam, Thomas Matthews (1874–1916), a gyhoeddwyd gan yr Undeb yn 1916.

Un o gyfraniadau pwysicaf Undeb y Cymdeithasau Cymraeg oedd cynnal Ysgol Wyliau Gymraeg yn Llanwrtyd ym mis Awst o 1918 ymlaen, ac mae'n werth oedi ychydig gyda hynny…

(*I'w barhau*)

---



# Agor y Llyfr

*Toy Story, Ice Age, Spider-man, Frozen, Paddington*

Cwestiwn: beth sy'n gyffredin rhwng y ffilmiau uchod?

Ateb: gallwch wylio dilyniant i'r ffilm gyntaf – *Ice Age 1 ac Ice Age 2, Toy Story 1 ac Toy Story 2* ac yn y blaen.




Wrth ymweld ag Ysgol Glan Morfa eleni, bu criw Agor y Llyfr yn cyflwyno dilyniant hefyd – Joseff 1 a Joseff 2. Roedd Joseff 1 yn cyflwyno hanes Joseff a'i freuddwydion ac ymateb cas ei frodyr wrth iddynt ei werthu i fod yn was yn yr Aifft. Yn Joseff 2 rhoddwyd crynodeb o'r hyn ddigwyddodd i Joseff yn yr Aifft cyn iddo gael ei benodi gan Pharo yn Rheolwr y wlad. Fe gofiwch i Joseff rybuddio'r Pharo y byddai'r Aifft yn profi saith mlynedd o ddigonedd cyn i saith mlynedd o newyn daro'r wlad a'r gwledydd cyfagos. Yn ein cyflwyniad gwelwyd brodyr Joseff yn dod i'r Aifft i geisio bwyd, heb ddeall mai'r brawd a werthwyd ganddynt oedd y prif swyddog yno. Ond ceir clo hapus i'r stori – y brodyr a Joseff yn cymodi a maddeuant yn uno'r teulu.

A'r hyn oedd yn gyffrous am Joseff 2 oedd gweld rhai o'r disgyblion yn cynorthwyo wrth wisgo ac actio rhan brodyr Joseff gan gydweithio gyda'r actorion mwy aeddfed.

Mae'r hanes am waith tîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn mynd ar led gyda mwy o wahoddiadau yn ein cyrraedd. Cofiwch gysylltu â'r Parch. Alun Tudur (atudur@gmail.com) os hoffech ymuno â ni.

# Pobol y Rhigwm

Ar ôl perl o gystadleuaeth yn rhifyn y dathlu, cymysg oedd cynigion y rhifyn hwn. Digon penagored oedd gofynion y dasg, sef pennill heb fod dros bedair llinell am archfarchnad, a gall bron â bod unrhyw fesur dan haul fodloni'r cyfryw ddisgrifiad, boed yn englyn neu'n bedair llinell vers libre. Gwaetha'r modd, pum llinell sydd i limrig ac fe gafwyd un o'r rheiny yn ei gyfanrwydd gan Cobyn – i fod yn onest, mae'n limrig cryf a gogleisiol ond rhaid i'r beirniad gadw'r ddysgl yn wastad! Limrig anorffenedig, pedair llinell sy gan Ond; tybed âi'r nod oedd i'r rheiny sy'n ei ddarllen fathu eu llinell glo eu hunain? Edmygaf ymgais ddyfeisgar i gadw at feini prawf y gystadleuaeth! Diolch i Gwagle am ddau amrywiolyn ar yr un thema; mae angen twtio ychydig ar y fydryddiaeth yn y naill a'r llall ond mae'r cyferbynnu rhwng materoliaeth yr archfarchnadoedd a'r bywyd ysbrydol yn drawiadol. Cafwyd penillion crafog gan Bwllfa ac Arch-gwynwr ill dau sy'n gresynu am dwf yr archfarchnadoedd mawrion ar draul y siopau bach, ac mae y Medelwr wedi gwneud defnydd llythrennol – a doniol dros ben, mewn ffordd dywyll – o'r term arch-farchnad: 'Chwe troedfedd yw'r norm ac mae rhai'n ddigon tlws'! Diolch hefyd i Ianto am unig driban y gystadleuaeth, mae'n gwbl driw i'r mesur ac yn annwyl ei natur: 'Yn hytrach af i siop fach Siân, hi'r ferch fach lân yw 'nghariad'. Fel rhyw fath o synopsis, felly, cynigion canmoladwy ond gwylier y fydryddiaeth, os am ddewis pennill pedair llinell ar fydr ac odl, gwnewch yn siŵr bod y sillafau'n cydblethu'n esmwyth! Dyma'r tri sy'n cyrraedd y copa'r tro hwn:

> Dywedwch yn uchel "Archfarchnad, archfarchnad,
> Archfarchnad, archfarchnad, archfarchnad, archfarchnad."
> Os gwichiwch neu chwyrnwch, a chewch chi besychiad,
> Mae mêl ar eil un, ar y dde, wrth y salad.
>
> *Gwddw*

Dyma ymgais fwya swreal y gystadleuaeth o ddigon, ond chwerthin wnes i wrth ddarllen y pennill hwn – mae sgrifennu pennill neu gerdd sy'n wirioneddol ddoniol yn her ac mae Gwddw yn amlwg wedi meddwl sut i gyflawni hynny, ar ôl bathu syniad gwreiddiol iawn! Mae digrifwyr yn dewis y geiriau gorau i ennyn ymateb ac mae'r ymadrodd 'dywedwch yn uchel', ynghyd â llinell glo'r rhigymwr o dan sylw yn dilyn y confensiwn hwnnw. Mae'n sefyllfa gwbl hurt, mewn gwirionedd ond does dim yn hurt am ddyfeisgarwch y pennill ffraeth hwn.

> Mi es i'r ddesg yn Nhesco – i hawlio
> ad-daliad ar goco.
> Am brofiad! Dim heb rifo
> tair owns, un ffloch ar y tro.
>
> *Yma o Hyd*

Mae 'na rywbeth yn ddigon swreal am ymgais Yma o Hyd hefyd, sy'n delweddu'n llwyddiannus iawn i gyfleu'r truan wrth ddesg flaen Tesco yn mynnu cael arian yn ôl am goco, o bopeth! Englyn ysgafn (cwbl gywir) yw hwn ac mae'r rheiny'n greaduriaid prin. Mae Yma o Hyd wedi llwyddo'n ddiamheuol yn ei ymgais, gyda dewis campus o eiriau (cefais fy ngoglais gan y gair 'ffloch'!) a mynegiant esmwyth – her i unrhyw englynwr, heb sôn am englynwr ysgafn. Da iawn am feddalu'r 'c' yn 'Tesco' yng nghynghanedd lusg y llinell gynta, gyda llaw! Mae mesur sy wedi'i gyfyngu i ddeg sill ar hugain yn gofyn am gynildeb ac mae Yma o Hyd wedi cyflawni hynny a chodi gwên – ardderchog!

> Ni fentraf nawr mewn car na bws
> I ganolfannau mawrion;
> Bodloni rwyf ar neges rwydd
> Archfarchnad ar olwynion.
>
> *Ocado*

Mae Ocado wedi gosod y safon o ran penillion mydr ac odl y gystadleuaeth hon (dydw i ddim yn cynnwys yr englyn na'r triban, wrth reswm, gan fod iddyn nhw baramedrau pendant). Fe fydda i byth a hefyd yn lladd ar ddiffyg mydryddiaeth a chynigion herciog. Dyma groesawu achos i fi y tro hwn ganmol pennill sy'n llifo'n berffaith (wyth sill yn llinellau 1 a 3, saith yn llinellau 2 a 4 a'r cyfan yn goferu'n ddiymdrech). At hynny, mae'n dweud digon. Mae cynildeb yn un o hanfodion barddoniaeth, boed yn bennill neu'n awdl, ac yn fynych, yr hyn sy ddim yn cael ei ddweud sy'n ergydio. A yw'r ddwy linell gynta'n awgrymu mai person oedrannus sydd yma, neu efallai rhywun, yn y byd ôl-bandemig, sy wedi hen alaru ar brysurdeb canolfannau siopa? Mae 'ni fentraf' yn ymadrodd cyfrwys. Mae'r llinell glo'n gampus – pa well ddisgrifiad o Ocado a'i gyffelyb nag 'archfarchnad ar olwynion'? Dyma bennill sy'n disgrifio'n dwt realiti siopa bwyd yn yr oes sydd ohoni, gyda graen.

Beth mae'r beirniad i'w wneud y tro hwn? Fedra i ddim gwella ar gynigion Yma o Hyd nac Ocado fel ei gilydd. Rhaid wrth reddf, felly, ac er mor ddoniol o ddyfeisgar yw englyn Yma o Hyd, disgrifiad penigamp ac amserol – a hyfryd o gynnil – Ocado o'r 'archfarchnad ar olwynion' sydd, o drwch blewyn chwannen, yn hawlio'r wobr gyntaf.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Ebrill**
**Gwen Emyr, Radur**

**Cystadleuaeth mis Mehefin**

**Limrig yn cynnwys y llinell:**
***Yn Llŷn ac Eifionydd eleni'***

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mehefin at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

**Diolch yn fawr**

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd am eu rhodd hael tuag at gynnal ein papur bro.**

# Merched Plastaf yn Rhufain

Oriau mân fore Sadwrn glawog ddechrau Ebrill, dyma lond bws o ferched a mamau ar daith fythgofiadwy i Rufain. Cafodd y penwythnos ei drefnu i ddysgu am hanes a harddwch Rhufain ac arddangos talentau Merched Plastaf a'n diwylliant yn y ffordd orau bosibl.

Cafwyd cyfle i ymlacio ar ôl cyrraedd y gwesty yng nghanol y ddinas, a phryd o fwyd nos Sadwrn mewn bwyty oedd wedi cytuno i weini bwyd i 50 ohonom. Braf oedd eistedd tu allan, a buan iawn yr ymlaciodd pawb, gyda chân neu ddwy i ddiolch am y croeso.

Y drafodaeth fawr fore Sul oedd, a ddylid mentro i'r Fatican yn y gobaith o weld y Pab? Amdani, a chawson ni 'mo'n siomi. Roedd allan yn annerch y dorf. Dyna brofiad oedd hynny, ond yna, paratowyd llwybr drwy'r dorf. Dyma sefyll wrth y rhaffau, a daeth heibio. Beth wnaeth Merched Plastaf? Canu iddo. Ac yntau - gwenu'n braf wrth basio o fewn hyd braich. Gallwn ddweud â balchder ein bod "wedi canu i'r Pab!"

Nos Sul, roedd Coro Giovanile With Us, côr merched lleol, wedi trefnu cyngerdd yn Eglwys Basilica di San Vitale - dyna brofiad! Mae'n un o eglwysi hynaf Rhufain, o'r bedwaredd ganrif, ac er ei bod yn edrych braidd yn ddi-nod o'r tu allan, roedd y tu mewn yn arbennig o hardd. Ac am sain! Roedd yr holl brofiad yn wefreiddiol, yn emosiynol, yn wych!



***Y Côr yn Eglwys Basilica di San Vitale***

Fore Llun, roeddem wedi cael caniatâd arbennig i ganu yn y Pantheon – un o adeiladau pwysicaf yn hanes yr Ymerodraeth Rufeinig sy'n rhyfeddod pensaernïol! Cawsom gynulleidfa werthfawrogol iawn, wedi dod yno o bob cwr o'r byd. Roedd yn brofiad bythgofiadwy!

Brynhawn Llun, aethom ar daith o amgylch rhan hynafol y ddinas. Cawsom ein harwain i hen, hen adeiladau a cherfiadau, gerddi a cherfluniau, heibio Fforwm Cesar a'r Fforwm Rufeinig, Bwa Cystennin a gorffen y tu allan i'r Colosseum.

Cawsom dynnu ein lluniau ar y Grisiau Sbaenaidd, cyn cael ein hanfon o'no am ein bod wedi dechrau canu fanno hefyd!

Penwythnos llawn hwyl a hanes, a hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg, a dysgu rhywfaint o Eidaleg 'fyd. Ciao!

# Does Unman yn debyg i Gymru

Fel Cymraes frwd sy'n dod o'r brifddinas, mae'r gwreiddiau yn fy nghlymu at fy mamwlad yma o hyd.

Nid oes teimlad fel bod yn Gymraes, y teimlad o berthyn. Perthyn i deulu, cymuned a gwlad - Cymru - gyda'n hanes cyfoethog, ein diwylliant a'n hiaith.

Mae llawer o ddigwyddiadau yn ein huno ac i nifer, chwaraeon sy'n crisialu'r ymdeimlad hwn. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cymaint o chwaraeon sy'n ein huno, boed hynny'n Gareth Bale a charfan pêl-droed Cymru neu enwau mawr fel Alun Wyn Jones a'r hogiau rygbi. Yn bendant, teimlaf falchder wrth wisgo crys coch Cymru a chefnogi'r tîm cenedlaethol ar y cae chwaraeon. Undod yw'r gair i ddisgrifio'r teimlad o fod mewn stadiwm gyda Chymry eraill, yn cyd-ganu ein hanthemau (*Hen Wlad fy Nhadau* ac *Yma o Hyd*). Yn bersonol, does dim teimlad yn well na bloeddio canu *Yma o Hyd* gan Dafydd Iwan gyda miloedd o Gymry brwd eraill yn stadiwm Lecwydd.

Cymreictod i eraill yw'n hiaith. Er i ni weld niferoedd siaradwyr Cymraeg yn gostwng yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf, parhau y gwnâi ein hiaith lewyrchus i ddal ei lle yng nghalonnau siaradwyr Cymraeg. Mae'r Gymraeg wrth galon y Cymry modern a'n hunaniaeth Gymreig.

Mae gen i hoffter enfawr tuag at draddodiadau'r wlad sy'n unigryw i ni fel cenedl megis Eisteddfodau a Dydd Gŵyl Dewi, yn ogystal â'n chwedlau hudolus.

Does unman yn debyg i Gymru a does dim teimlad gwell na bod yn Gymraes.

**Millie Stacey, Blwyddyn 2,**
**Newyddiaduraeth a Chyfathrebu**

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Cydymdeimlwn â Mrs Bethan Phillips, un o'n horganyddion, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Roy Morris.

Treuliodd Mrs Siriol Burford beth amser yn yr ysbyty wedi codwm gas yn ei chartref. Da deall ei bod wedi dychwelyd gartref. Dymunwn yn dda a gwellhad buan iddi.

Dymuniadau gorau i'r ieuenctid sydd yn sefyll arholiadau yn ystod yr haf. Rydych i gyd yn A* i ni yn Y Crwys.

Llongyfarchiadau i'r Parch. Glyn Tudwal Jones ar gael ei anrhydeddu yng Nghymdeithasfa'r De am 50 mlynedd o weinidogaethu.

Llongyfarchiadau i'r Dr Menna Tudwal Jones a Richard Harris ar eu priodas yn Llundain. Mae Menna yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Greenwich.

Cafodd yr Ysgol Sul fore arbennig yn rhandir Emyr Gruffydd yn y Waun Ddyfal gan chwynnu a phlannu. Diolch i Hannah Thomas am y trefniadau.

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol gan y Gymdeithas yng nghwmni Gethin Jenkins-Jones yn trafod 'Byd yr Adar'. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Cafodd y Gymdeithas Ddrama ddiwrnod i'r brenin yn Llundain. Mwynhawyd y daith ar y Tafwys o Greenwich cyn ymweld â'r Theatr Genedlaethol i weld y ddrama *The Motive and the Cue* o waith Jack Thorne. Diolch yn fawr i Robin Owen am drefnu'r daith.

Trefn yr Oedfaon, am 10.30 a 6.00 o'r gloch

4 Mehefin
Bore: Parch. Gwilym Wyn Roberts;
Hwyr: Mrs Margaret Jones (Oedfa Gymun)
11 Mehefin: Mr William Tiplady
18 Mehefin
Bore: Mr Michael Jones;
Hwyr: Parch. Catrin Roberts
25 Mehefin: Parch R.O Griffiths
2 Gorffennaf: Mr Arwel Ellis Owen
9 Gorffennaf
Bore: Gwasanaeth Cymorth Cristnogol;
Hwyr: Mr Peredur Owen Griffiths
16 Gorffennaf: Mr Rhys ab Owen
23 Gorffennaf:
Parch.R.O.Griffiths. Yr oedfa foreol yn Oedfa Gymun.
30 Gorffennaf:Parch.Aled Edwards

## SALEM, TREGANNA

Rydym wedi mwynhau digwyddiadau amrywiol a chyfle i gymdeithasu.

**Gwasanaethau'r Pasg**
Braf oedd croesawu Evan atom i arwain Oedfaon y Pasg, a threulio orig neu ddwy mewn cwmnïaeth o ddiolch, ac addoliad. Diolch i Evan, hefyd, am rannu ystyr y Pasg (a'r wyau) gyda'r plant.

**Gwasanaethau**
Diolch i bawb sydd wedi bod yn trefnu'r gwahanol wasanaethau dros yr wythnosau diwethaf, ac i bawb sydd wedi bod yn cyfrannu atynt. Mae'n hyfryd clywed lleisiau ein cyd-aelodau a rhannu ein gweddïau.

**Cymorth Cristnogol**
Os hoffech chi gyfrannu at ein casgliad Cymorth Cristnogol, dyma'r ddolen: Amlen Cymorth Cristnogol Salem, Canton - Christian Aid Envelope

**Adran Salem**
Llongyfarchiadau i Adran Salem ar gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri gyda'r Grŵp Llefaru a'r Gwaith Celf. Da iawn chi!

**Clwb y Bobl Ifanc**
Mae'n hyfryd, hefyd, gweld Clwb y Bobl Ifanc yn parhau i gwrdd ar nos Wener unwaith y mis. Dymuniadau gorau i bawb sy'n sefyll arholiadau ar hyn o bryd.



Gwaith Celf Adran Salem ar gyfer Eisteddfod yr Urdd

**Clwb Brecwast**
Os ydych yn rhiant newydd ac yn awyddus i gymdeithasu â rhieni newydd eraill, cofiwch am y Clwb Brecwast sy'n cael ei gynnal i rieni a phlant a babanod o dan oed meithrin sy'n cael ei gynnal ar fore Mercher yn Salem bob pythefnos.

**Clwb Coffi**
Cofiwch fod croeso i chi ymuno â'r Clwb Coffi os hoffech chi ymuno am sgwrs a chwmnïaeth ambell i fore Gwener.

**Cysylltu**
Os hoffech chi gael gwybod be sy'n digwydd yn Salem, a phryd, cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter, neu ewch i'n gwefan.

## EGLWYS DEWI SANT

**Dydd Gwener y Groglith**
Cynhaliwyd Gwasanaeth y Groglith ar ran Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewi Sant â'r Ficer, y Parchedig Ganon Dyfrig Lloyd yn pregethu.

**Datganiad organ**
Roedd nifer dda yn bresennol yn yr eglwys ar 14 Ebrill ar gyfer datganiad graenus a champus ar yr organ gan Jeffrey Howard. Dr Peter King fydd yn perfformio'r datganiad nesaf ar yr organ, ddydd Gwener 9 Mehefin am 1:15.

**Coffi a Chlonc**
Fore Sadwrn 20 Mai, cafwyd sesiwn Coffi a Chlonc rhwng 10:30 a 12:00 yn neuadd yr eglwys â nifer dda wedi dod ynghyd. Fe fydd y nesaf fore Sadwrn, 17 Mehefin.

**Croesawu ein Hesgob newydd**
Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 29 Ebrill i groesawu'r Esgob newydd, y Gwir Barchedig Mary Stallard, a ddaw atom o esgobaeth Bangor ac sydd yn siarad Cymraeg. Roedd yn hyfryd croesawu'r Esgob newydd i Eglwys Dewi Sant am y tro cyntaf i'n gwasanaeth 10:30 a.m. ar 21 Mai.

**Cymorth Cristnogol**
Ddydd Sul 21 Mai, yn rhan o'n gweithgareddau codi arian i Cymorth Cristnogol, cafwyd Stondin Cynnyrch Cartref yn y neuadd wedi'r gwasanaeth.

**Yr Ysgol Sul**
Cynhelir yr Ysgol Sul ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis a gwasanaeth aml-oed ar ail Sul y mis.

**Côr yr Eglwys**
Mae Côr yr Eglwys yn ymarfer ar nos Fawrth am 6:00 p.m. Rydym yn chwilio am aelodau newydd sy'n mwynhau canu cerddoriaeth eglwysig mewn côr bach pedwar llais. Os oes gennych ddiddordeb, mae croeso ichi ddod i un o'r ymarferion.

**Gwasanaethau**
Fe fydd gwasanaeth yn yr eglwys bob Sul am 10:30 a.m. ac am 6:00 p.m. a gwasanaeth am 8:00 a.m. ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis. Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon ac Ysgol Sul (tymor ysgol; 10:30 a.m.):
(Mis o Ddathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol)
4 Mehefin – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 Mehefin – Cymanfa Ganu – dan arweiniad Eilir Owen Griffiths (am 5:00 p.m.)
18 Mehefin –Dathlu'r Ysgol Sul
25 Mehefin – Dathlu dan arweiniad y Parch. R Alun Evans

Cynlluniwyd y logo gan Alwyn Harding Jones.
A'r neges y tro yma i ddarllenwyr *Y Dinesydd* yw, os bydd cyfle gennych i ymuno yn ein dathliadau yn ystod mis Mehefin, yna bydd croeso yn eich disgwyl. Cewch baned wedi'r oedfaon, a bydd arddangosfa o luniau a chofnodion eraill o hanes y capel yn y Festri.
A rhag ofn i'r rhai craff ohonoch sylwi ar y garreg sydd ar dalcen blaen y capel, ac awgrymu ein bod flwyddyn ar ei hôl hi yn dathlu, yna fe'ch cyfeiriwn at y cofnod canlynol o *Y Tyst a'r Dydd*, 13 Mehefin 1873, sy'n adrodd hanes agor y capel "newydd":

> *Mae y Bethlehem hwn wedi ei adeiladu mewn man hyfryd iawn – llawer gwell na'r un y safai yr hen gapel arno. Llwch, baw, a sŵn peiriannau oedd oddi amgylch yr hen gapel, ond coed prydferth, a sŵn adar y nefoedd yn canu oddi rhwng eu cangau, sydd yn amgylchynu y newydd. Capel trymaidd ac anghyfleus oedd yr hen, ond capel ysgafn a gwir gyfleus yw y newydd.*
> *Adeiladwyd yr hen gapel fwy na ddeugain mlynedd yn ôl, a chafodd ei helaethu ddwy waith.*
> *Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun y 1af a'r 2il cyfisol.*
> *Yr oedd y cynulliad yn anarferol o fawrion trwy y dydd, a'r awel ddwyfol yn esmwyth chwythu trwy bob peth, nes ei gwneud yn hyfryd iawn i fod yn bresennol.*

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Ann Beynon a Leighton wrth iddynt groesawu wŷr arall i'r teulu, Wiliam Guto.

Croeso yn ôl i Tomas Sennit sydd wedi bod yn gweithio fel meddyg arbenigol yr arennau yn Seland Newydd, Cambodia a Fietnam.

Llongyfarchiadau i ddau o'n diaconiaid ifanc ar eu llwyddiant ym myd rhedeg – Rhodri ab Owen yn cwblhau ei ras gyntaf erioed (10K) a Gwenllian Edwards yn llwyddo yn ei hail farathon.

Dymunwn yn dda i Gwenllian wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel uwch-gyfieithydd i Gyngor Caerdydd.

Rhannwn lawenydd Delun, Gwion, Betsan a gweddill y teulu wrth longyfarch Elena Rhisiart ar ei phriodas ag Arwel Hughes. Ie, gŵr sy'n rhannu'r un enw â'i thad-cu.

Hyfryd oedd deall bod Arwen Williams wedi'i dewis i gynrychioli Cymru fel aelod o dîm dan 16 Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Llinos Metcalf wrth iddi gerdded y 96 milltir o Glasgow i Fortwilliam i godi arian at Ganolfan Ganser Felindre.

Bydd y Clwb Darllen yn trafod *Rhyngom* gan Sioned Eleri Roberts, enillydd y Fedal Ryddiaeth 2022, yn y cyfarfod nesaf

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i'r gwasanaethau ar y Sul yn ystod y ddau fis diwethaf: ein gweinidog y Parch. Ddr Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, Marc John, y Parch. Judith Morris a'r Parch. Owain Llyr Evans.

**Teyrnged i Illtyd Lloyd**
Ni wyddem mai Sul y Blodau fyddai Sul olaf Illtyd yn ein plith, ac y byddai wedi ein gadael prin bythefnos yn ddiweddarach. I Catrin a Steffan, 'Dad' oedd Illtyd, ac mae colli rhiant yn golled fawr. Cydnabyddwn ofal eithriadol Catrin dros ei thad yn ystod y blynyddoedd ers marwolaeth Julia ei mam. Gweler y deyrnged lawnach iddo ar dud.4 hefyd.

**Cywiriad**
Cyfeiriwyd at enedigaeth ŵyr Dai a Nia Boobier yn rhifyn diweddara'r *Dinesydd* a'i enwi yn Wil Alexandra Boobier! Yr enw cywir yw Wil Alessandro Boobier.
Ymddiheuriadwm yn ddidwyll am yr amryfusedd hwn

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Dymuniadau da**
Bu rhaid i sawl aelod o'r eglwys wynebu triniaethau yn ddiweddar. Cafodd Meleri Perkins a Selwyn Williams driniaeth cataract a bu rhaid i Rhian Evans gael llawdriniaeth frys i dynnu'r pendics. Dymunwn yn dda iawn iddynt wrth iddynt wella a chryfhau.

**Arholiadau**
Dymunwn yn dda i sawl un o'n pobl ifanc wrth iddynt wynebu arholiadau TGAU, Uwch atodol a Lefel A yn ystod yr wythnosau yma.

**Pregethu'r Sul**
Ar fore Sul mae Emyr, ein gweinidog, wedi dechrau astudio epistol cyntaf Paul at y Corinthiaid. 'Rydym bellach wedi astudio'r bennod gyntaf a gwelsom, ymhlith pethau eraill, yr angen am undod yn ein plith a phwysigrwydd pregethu Iesu Grist a'i waith drosom ar y groes.
Yn y nos parhawn yn ein hastudiaeth o lyfr Genesis. 'Rydym bellach wedi cyrraedd hanes Isaac. Mae cymaint i'w ddysgu o edrych ar rai o gymeriadau'r Hen Destament a'r ffordd y bu i Dduw weithio yn eu bywydau.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Gan mai unwaith y mis byddwn yn cwrdd i glywed yr Offeren yn Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant, bydd aelodau'r gynulleidfa Gymraeg yn mynychu eu plwyfi lleol ar Suliau eraill y mis. Bydd hyn yn golygu ein bod yn dathlu Suliau mawr y flwyddyn, fel Sul y Blodau a Sul y Pasg eleni, mewn gwasanaethau Saesneg.

Ond ar Sul olaf mis Mai roeddem yn dathlu gŵyl y Pentecost yn Gymraeg. Cawsom glywed am y gynulleidfa eang yn clywed yr apostolion yn llefaru – 'bob un yn ei iaith ei hun'! Roedd yr emynau a'r darlleniadau yn dathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion ac arnom ninnau.

Y Tad Peter Davies a'r Parch. Elfed Jones sy'n cynnal yr Offeren yn Gymraeg ac rydym ni'n ddiolchgar iddynt bob tro am ddathlu'r Offeren bob mis, sy'n ein caniatáu i gyfarfod ac addoli yn Gymraeg.

Offeren fisol: Dydd Sul 25 Mehefin am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant, yr Eglwys Newydd CF1 1AD.

Hefyd ar gael ar lif byw yr eglwys ar ei gwefan: www.stteilos-olol.co.uk

## EBENESER

**Arwyddion newydd**




Mae arwydd newydd wedi'i osod y tu allan i'r Eglwys Fethodistaidd yn yr Eglwys Newydd i ddangos ein bod yn cynnal oedfa yno pob pnawn Sul am 3:00 o'r gloch. Croeso cynnes i chi ymuno â ni. Mae 'pop-up' newydd wedi'i greu ar gyfer y Ganolfan Fethodistaidd

**Cymorth Cristnogol**

Cynhaliwyd wythnos Cymorth Cristnogol ar 14 - 21 Mai er mwyn codi arian i helpu'r anghenus yn fyd-eang. Cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a chymerwyd rhan gan rai o'r aelodau. Canolbwyntiwyd y sylw eleni ar Malawi, ac ar brosiect gan wraig o'r enw Esther.

**Clwb Sêr**

Beth am ddod â'ch plant i'r ysgol Sul bob bore Sul am 10:00, am wersi a gweithgareddau bywiog a lot fawr o hwyl? Am fanylion chwliwch am Ebeneser Caerdydd ar Twitter, Facebook ac Instagram.

**Angor**

Mae cyfarfodydd Angor Grangetown yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn bendith a llawenydd. Os ydych chi yn byw yn ardal Grangetown, beth am i chi ymuno â ni yn y cyfarfodydd am 4.30 ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis? Mae Angor wedi cael baneri a 'pop-ups' newydd er mwyn gwneud y gwaith yn fwy gweladwy.

**Agor y Llyfr**

Newyddion da i dîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd yw ein bod wedi ein gwahodd i ddwy ysgol newydd i gyflwyno straeon Beiblaidd, sef Ysgol Gwaelod y Garth ac Ysgol y Berllan Deg. Diolch i'r criw ymroddedig am eu brwdfrydedd ac i Catrin Roberts ac Adam Colman am drefnu.

**Yr oes ddigidol**

Bellach mae elfennau digidol yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth e.e. PowerPoint, ffrwd byw, podlediad ar y pod.cymru, YouTube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon, a'r wefan. Yn ddiweddar crëwyd cyfrif Instagram.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org
@MinnyStreet Gweinidog: y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein gweinidog yn oedfaon 4, 11 ac 18 Mehefin. Bydd oedfa foreol 4 Mehefin yn oedfa gymun. Ddydd Sul, 25 Mehefin, y Parchedig Dylan Rhys Parry fydd yn arwain oedfaon y dydd. Yn ystod oedfaon bore Sul 4, 11 a 25 Mehefin y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

***Gweithgarwch y mis***

Mae gweithgareddau mis Mehefin yn cynnwys sesiwn Ciniawa gyda'r Saint (22 Mehefin am 11:30); cwmni santes a gawn y tro hwn, sef Gwenffrewi. 'Esgyrn y capel' fydd thema'r drydedd yng nghyfres y Darlithiau Celf ar 13 Mehefin. Bydd cyfle i fwynhau Coffi a Chlonc fore Iau, 1 Mehefin (10:30–12:30) a phryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 18 Mehefin. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl ac yn ddiolchgar am ddwy o'n haelodau, sef Heulwen Jones (Llandaf gynt ond mewn cartref gofal ers nifer o flynyddoedd) a Delyth Blainey (Pontypridd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu a'u holl gyfeillion.

**Aelodau newydd**

Hyfrydwch fu cael croesawu Avril Jones, Lynne Lewis a Beti Roberts yn aelodau mewn Oedfa Gymun ddechrau mis Mai. Dymunwn bob bendith iddynt yn ein mysg.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis nesaf cawn gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Lona Roberts, y Parch. Dafydd Andrew Jones, y Parch. R. Alun Evans a'r Parch. Glyn Tudwal Jones.

Rydym yn danfon ein dymuniadau gorau at ddwy o'n haelodau - Mrs Mair Jones a Mrs Iola James - sy'n ei chael yn anodd i ddod i'r gwasanaethau ar hyn o bryd.

Ar 12 Mehefin byddwn yn cynnal bore coffi yn y capel i godi arian ar gyfer y Banc Bwyd. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n dod â nwyddau i lenwi'r bocs bob wythnos.

Mae croeso i bawb ymuno yn ein gwasanaeth bob bore Sul am 10.15.

## BETHEL, PENARTH

Hyfrydwch i bawb yn ddiweddar oedd croesawu Audrey i'r oedfa a hithau'n galaru yn dilyn marwolaeth ei gŵr Ceri. Teimladau tebyg yn yr un oedfa oedd estyn croeso cynnes i Betsan (gweddw Howard), hithau wedi goresgyn salwch yn ddewr i fod gyda ni.

Anfonwyd hysbyseb i'n papur enwadol (*Y Tyst)* yn sôn am ein hawydd i chwilio am weinidog i ddilyn Kevin. Ymddangosodd yr hysbyseb yn rhifyn 25 Mai, ar dudalennau penodol yr Undeb a hefyd ar y tudalennau cydenwadol.

Ar Sul cyntaf Wythnos Cymorth Cristnogol (Mai 14) seiliodd ein gweinidog ei fyfyrdod ar y cwestiwn a osodwyd i Moses, 'Beth sy gennyt yn dy law?' (Exodus 4, 2). 'Gwialen' oedd yr ateb. Yn atgyfnerthiad i'r testun, ar y sgrîn cafwyd dau lun ochr-yn-ochr â'i gilydd, y naill yn dangos Moses gydag un wialen a'r llall o'r Brenin Siarl gyda dwy yn ystod ei seremoni coroni diweddar. Estynnodd Kevin y cwestiwn i bawb ohonom yn her wrth ystyried pa 'wialen' sy gennym i fod o wasanaeth.

Y Sul canlynol diolchodd Kevin i'n haelodau a fu, gydag aelodau o eglwysi eraill Penarth, yn cynorthwyo'r fenter casglu ar-y-stryd. Canolbwyntiwyd y myfyrdod ar hanes y Dyrchafael (Actau 1, 1-11 Esgyniad yr Arglwydd Iesu). Nodwyd ei bod yn llesol i bawb ohonom 'gymryd hoe' yn y cyfnod rhwng y Dyrchafael a'r Pentecost er mwyn aros a disgwyl.

Ddydd Sul 28 Mai, hyfryd oedd croesawu Arfon Jones i'n harwain. Yn naturiol ar y Dydd Pentecost hwn cafwyd darlleniad o'r hanes yn Actau 2. Pwysodd Arfon ar y cynnig fod yr hanes yn cofnodi addewid Duw i fod gyda ni, hyd yn oed heddiw yn nyddiau'r trai. Ymhelaethwyd y myfyrdod mewn sylwadau ar adnodau 1-13 yn Luc 11, gyda sylw penodol ar adnod 13.

# Ysgol y Berllan Deg





**Myfyrwyr o Wcráin yn ymweld**

Ar 2 Mai, daeth myfyrwyr athletau o'r Wcráin i'r ysgol i rannu eu profiadau gyda disgyblion Bl 4, 5 a 6 o symud o'r Wcráin i Gymru ar amser mor anodd. Mae'r myfyrwyr yn hyfforddi ym Mhrifysgol Met Caerdydd ar hyn o bryd.

**Gwasanaeth Ewyllys Da yr Urdd**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gan aelodau o'r Cyngor Ysgol a'r Dreigiau i ledu neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Eleni, roedd y neges yn ffocysu ar wrth-hiliaeth, gan ddatgan nad oes lle i hiliaeth yn y byd.

**Siarter Iaith**

Fel rhan o weithgareddau'r Siarter Iaith aeth rhai disgyblion sydd wedi eu hethol i fod yn Ddreigiau Iaith i ymweld ag Ysgol Gynradd Llanedeyrn i rannu gemau buarth Cymraeg a dysgu geirfa Cymraeg Campus. Cawson fore llwyddiannus yn llawn hwyl. Fel rhan o ddathliadau Seren a Sbarc mae'r disgyblion ysgol gyfan wedi cynllunio masgot i annog pawb i siarad Cymraeg.

**Ymweliadau a phrofiadau di-ri**

Aeth disgyblion Blwyddyn 1 i draeth Rest Bay gydag @Beach AcadWales. Roedd pawb wrth eu boddau yn chwilota am greaduriaid yn y pyllau glan môr.

Ar 9 Mai, mwynhaodd blwyddyn 3 yng Nghaerllion gan ddysgu am fywyd a chael profiadau am Oes y Rhufeiniaid. Cafwyd ddiwrnod diddorol iawn.

Ar 11 Mai, teithiodd disgyblion Blwyddyn 2 i ymweld â Sŵ Arch Noah i ddysgu mwy am anifeiliaid a'u cynefinoedd. Bu'n ddiwrnod buddiol iawn.

Ar 18 Mai, mwynhaodd Blwyddyn 6 ym Mae Caerdydd gan ymweld â'r Senedd a'r dociau cyn gwylio'r sioe *Charlie a'r Ffatri Siocled*, yng Nghanolfan y Mileniwm.

# Ysgol Plasmawr



Mae bod yn rhan o dîm Rygbi Plasmawr wastad yn wefr, ond pan ddaeth gwahoddiad munud olaf i gystadlu yn Nhwrnamaint Rygbi 7 Bob Ochr Rosslyn Park, sef twrnamaint rygbi mwya'r byd gyda dros 10,000 o ferched a bechgyn yn cystadlu'n flynyddol, roedd pawb mor gyffrous a balch! Roedd hyn am fod yn drip epig ar y 'Bws Parti', ac wrth gwrs yn gyfle i arddangos talent Plasmawr i gynulleidfaoedd newydd. Roedd yn fraint derbyn gwahoddiad ynghyd ag ysgolion rygbi gorau Prydain a thu hwnt, gan gynnwys Dubai! Doedd dim amser i drefnu gwesty felly cwrdd yn nhywyllwch yr iard am 5:30 a.m. amdani, Miss Edwards wrth y llyw a Mr Edwards yn cynnal y banter a choffi Costa yn ei law. Heblaw am ein roced, Beca Evans, yn anghofio ei bwts a phobl garedig y siop chwaraeon leol yn seiclo pâr iddi, cawsom siwrne di-drafferth. Er ein bod yn nerfus ar dir newydd yn erbyn timoedd anghyfarwydd, saethon drwy'r gemau grŵp, gan ennill bob gem, 20-5, 20-12 a 49-0. Ymlaen i'r chwarteri a sicrhau buddugoliaeth arall yn erbyn Hwlffordd, tîm arall o Gymru. Yna i'r rownd gyn-derfynol! Ymdrech arwrol eto ond colli yn y diwedd i dîm ysgol fonedd Hill House o Doncaster. Yn emosiwn y siom daeth dagrau o rwystredigaeth gyda phawb yn eithaf digalon wrth droi am adref. Newidiodd hyn ym mis Mai, pan chwaraeom yn ein cystadleuaeth gyntaf i'r gynghrair, cystadleuaeth o Dan 14 Ysgolion Cymru, a'r tro yma roeddem yn benderfynol o gael buddugoliaeth. Cyrhaeddom y rownd derfynol yn Ystrad Mynach a churo Tîm Ysgol Ystalyfera Bro Dur i ddod yn bencampwyr Cymru! Roeddem yn gorfoleddu â'r gwpan tra'n dawnsio a chanu, 'We are the champions,' a dathlu yr holl ffordd yn ôl ar y bws. Ymlaen â ni!

*Alaw Charles, Blwyddyn 9*






# Gŵyl Cerdd Dant

*Dydd Sadwrn 11 Tachwedd 2023*

**Rhestr Testunau**

Rydyn ni wedi gwirioni gallu cyhoeddi - ydy, mae'r Rhestr Testunau wedi'i chwblhau ac mae'n fyw ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru. Ewch draw i gael cipolwg arni: Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - Gŵyl Cerdd Dant (cerdd-dant.org). Mae'n llawn o ddarnau a syniadau gwych, yn ogystal â chystadlaethau newydd ar gyfer Caerdydd eleni. Rydym yn edrych ymlaen at y cythraul canu, y cystadlu a'r hwyl fydd i'w gael yn ...




**Y Lleoliad**

Bydd yr Ŵyl yn cael ei chynnal yn adeilad cyffrous, modern Coleg Caerdydd a'r Fro ar Ffordd Dumballs, sy'n cysylltu canol y ddinas a'r Bae. Dewch i gymryd rhan, dewch i ryfeddu, dewch i rannu!

Bydd hwn yn gyfle rhagorol i rannu diwylliant Cymru a'r Gymraeg ymysg ein pobl ifanc, ac estyn allan o ganol y ddinas tuag at bawb sy'n byw yma. Diolch i awdurdodau'r Coleg am eu cefnogaeth a'u haelioni.

**Digwyddiadau**

Mae llu o ddigwyddiadau wedi'u trefnu, gan gynnwys Barbeciw yn Canna Deli ar 9 Mehefin a Chymanfa Ganu yn y Tabernacl ar 2 Gorffennaf.

**Cyfrannu**

Os hoffech chi roi cyfraniad at yr Ŵyl ac yn methu dod i un o'r digwyddiadau, mae'n hawdd iawn cyfrannu ar-lein drwy ddilyn y ddolen isod i'r dudalen JustGiving:
Crowdfunding to Gwyl Cerdd Dant Caerdydd 2023 on JustGiving

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, neu os hoffech chi gynnig syniad, neu os hoffech chi gysylltu â'r Ŵyl mewn unrhyw ffordd, y cyfeiriad e-bost i gysylltu â ni yw GCDCaerdydd2023@gmail.com.

---

# Annibyniaeth: y sefyllfa bresennol

Y tro diwethaf mi gyflwynais i chi y syniad o Annibyniaeth Cymru. Cyn y gallwn ni drafod sut y gallai Cymru fod yn annibynnol, gadewch i ni edrych ar ble rydyn ni nawr.

Yn gyntaf beth sydd wedi ei ddatganoli i Gymru, h.y. beth sydd gennym reolaeth drosto eisoes?

- Addysg
- Amaeth, coedwigaeth a physgodfeydd
- Amddiffyn dŵr a thir
- Yr amgylchedd a chynllunio
- Arwyddion ffyrdd a chyfyngiadau cyflymder
- Datblygu economaidd
- Etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol
- Gwasanaethau tân ac achub
- Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Llywodraeth leol
- Rhai trethi incwm
- Tai
- Trafnidiaeth
- Treth stamp a threth tirlenwi
- Trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir
- Twristiaeth, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth

Eto rydym yn dal i weld Llywodraeth y DU yn diystyru llywodraeth ddatganoledig Cymru ar faterion fel trafnidiaeth (ffordd liniaru'r M4). Fe'n cyfyngir hefyd yn ein hadnoddau gan nad ydym yn cael yr arian cywir y mae gennym hawl i'w gael o dan Fformiwla Barnett, sef un o'r rhesymau pam y mae llawer o wasanaethau cyhoeddus Cymru mewn cyflwr enbyd er eu bod wedi cael eu datganoli.

Cedwir y canlynol i Senedd y DU, h.y. San Steffan:

- Amddiffyn a diogelwch cenedlaethol
- Blaendraeth a gwely'r môr
- Cenedligrwydd, mewnfudo a lloches
- Y Cyfansoddiad
- Cyfraith cyflogaeth
- Darlledu, telathrebu a gwasanaethau di-wifr
- Egni
- Y Gwasanaeth Sifil
- Gwasanaethau post.
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Materion cyllidol, gwasanaethau ariannol a rheoliadau pensiynau
- Materion tramor
- Nawdd cymdeithasol

Yn wahanol i'r Alban neu Ogledd Iwerddon, cedwir cyfiawnder a phlismona a chyfraith elusennau hefyd. Nid oes gan ein llywodraeth ddatganoledig ddim rheolaeth dros gyfiawnder a phlismona i wneud ei dinasyddion ei hun yn fwy diogel.

Does gennym ni ddim rheolaeth dros yr ynni rydyn ni'n ei gynhyrchu - dydyn ni ddim yn cael ein talu am ein dŵr na thrydan sy'n cael eu defnyddio yn Lloegr ac fe wnaeth Llywodraeth y DU ddiystyru adeiladu Morlyn Llanw Bae Abertawe, ffynhonnell werdd o ynni.

Y tro nesaf byddwn yn dechrau edrych ar sut y gallai Cymru fod yn hunangynhaliol yn ariannol.

***Irram Irshad***

# Merched y Wawr Y Felin

Mae bob amser groeso cynnes i aelodau newydd yn y Felin; rydym yn cwrdd ar drydydd dydd Iau'r mis am 7.30 p.m. yn Festri Capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd. Os am ymuno, e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232. Beth am ymuno gyda ni yn ein cyfarfod nesaf ar nos Iau 15 Mehefin gyda Leah Owen-Griffiths yn rhannu ei phrofiad fel cyn-arweinydd Ffit Cymru 2021?

**Cyfarfod mis Mai**

A hithau yn fis dathlu ein siaradwyr newydd, roedd yn fraint gwahodd Sarah a Caroline o'r elusen AWEN (Arts Whitchurch Eglwys Newydd).

Aethpwyd ati i sefydlu AWEN yn sgil bygythiad i gau llyfrgell yr Eglwys Newydd. Maent wedi rhoi blaenoriaeth i barhau i gynnig gwasanaeth llyfrgell a chreu canolfan gymunedol sydd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau celfyddydol ar gyfer y gymuned leol. O dan y cynllun Cymdogion a Ffrindiau (CAFf) maent yn trefnu gweithgareddau wythnosol fel grŵp cerdded, grŵp hel atgofion, grŵp sgwrs a gwau, grŵp sydd wedi creu gardd newydd o gwmpas y llyfrgell, Clwb Lego i oedolion a chlwb arlunio yn ogystal a digwyddiadau blynyddol fel cerdd a pheint, helfa wyau Pasg, sgyrsiau gan artistiaid ac awduron, digwyddiadau teuluol, nosweithiau cerddorol, cwisiau a mwy.

Mae'r teithiau cerdded wedi profi'n hynod o boblogaidd gyda dros 200 yn cymryd rhan. Mae tair taith wahanol: taith dreftadaeth, taith ardal y Philog a thaith goffáu am yr unigolion gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gwirfoddolwyr AWEN wedi creu llyfrynnau o'r teithiau cerdded sy'n cynnwys hen luniau o'r Eglwys Newydd.

Dangoswyd y map hanesyddol sydd wedi ei greu o'r Eglwys Newydd, sy'n cynnwys gwybodaeth annisgwyl am Felindre, Melin Gruffydd, y Sinema Rialto, y Fox & Hounds a Gardd y Santes Fair.

Galwch draw i'r llyfrgell i weld y map ac i ymuno yn y digwyddiadau – dim ond £5 yw'r tâl aelodaeth, bargen yn wir!

Diolchwyd yn fawr i Sarah a Caroline am roi cyflwyniad gwych drwy gyfrwng y Gymraeg; dyma'r tro cyntaf iddynt wneud ac yn sicr ddim y tro olaf, llongyfarchiadau mawr i'r ddwy.

Manylion cyswllt ar gyfer ymuno ag AWEN@thelibrary
awen.cymru@gmail.com
Gweplyfr: Awenthelibrary
www.awenthelibrary.cymru
Hwb yr Eglwys Newydd, Heol y Parc, Eglwys Newydd, CF14 7XA



*Caroline a Sarah o AWEN gyda Glenys ein Cadeirydd*

---

## Y DIGWYDDIADUR

### Mehefin

**Mawrth, 13 Mehefin**

Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno *Jemima*, drama newydd i blant 7+ gan Jeremy Turner, yng Nghanolfan y Celfyddydau MEMO, Y Barri, am 10.00am. Manylion pellach:
https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/jemima/

**Mercher, 14 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te mefus. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Llun, 19 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Parti Haf y Cylch Cinio yng ngardd Llywydd y Cylch, Arwel Ellis Owen, yng Nghreigiau rhwng 2.00 a 5.00 o'r gloch y prynhawn. Tocynnau: £10. Manylion pellach:
cylch.cinio@gmail.com

**Llun, 19 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. 'Siwrne yn y Siarabang!' Noson yng nghwmni Ifan a Margaret Roberts, Pentyrch, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mawrth, 20 Mehefin**
Cyngerdd gan fyfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn y Tabernacl ar yr Ais am 7.30pm.

**Sul, 25 Mehefin**
Menter Caerdydd. Taith gerdded o Ffynnon Daf i gopa Mynydd y Garth ac yn ôl – cylchdaith o ryw 5 milltir – rhwng 10.00am ac 1.00pm. Pris: £3.50. Manylion pellach gan Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 26 Mehefin**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Bill Jones ar y testun '"Rhyw garchar rhyfeddol yw'r llongau ymfudol": profiadau mordeithiol mudwyr o Gymru yn y 19eg ganrif'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 28 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Live Music Now', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**
**Manylion tud.2**

# Bwytai Merch y Ddinas

## *Un Ddinas, Dau Fyd*

**Lowri Haf Cooke**



Neidiodd teitl un o lyfrau Llwyd Owen i'r meddwl wrth baratoi i lunio'r llith hwn. Mae *Un Ddinas Dau Fyd* (2011) yn disgrifio byd bwytai Caerdydd i'r dim ar hyn o bryd. Dros yr wythnosau diwethaf, mewn ymateb i godi prisiau, penderfynwyd cau sawl bwyty annibynnol gwych.




Yn gyntaf, bwyty Bully's a sefydlwyd gan y teulu Bullimore yn 1996 y tu ôl i dafarn y Maltsters yn Llandaf. Aeth Russell y mab yn gogydd, fel ei dad, gan symud y busnes i Gilgant Romilly, ar y ffin rhwng Pontcanna a Threganna. Yn fwyty lleol tra dymunol roedd Russell wastad yn barod â'i groeso, a phan gyhoeddodd fod y busnes yn cau ddechrau mis Mai, gallwn synhwyro'r galar y tu ôl i'r geiriau. Roedd ymateb cyd-gogyddion a chwsmeriaid yn gwbl unfrydol; 'pob cydymdeimlad' siomedig a rhwystredig. Degawdau o gynnal y freuddwyd, chwysu chwartiau, goresgyn pandemig, cyn cael eich trechu yn y diwedd gan bwysau a sgil-effeithiau argyfwng economaidd.

Yr un eglurhad a roddwyd ar union yr un dyddiad – 6 Mai – am orfod cau bwyty Sopra 73 yn yr Eglwys Newydd. Os gofiwch chi fy adolygiad o'r bwyty y llynedd, ro'n i ar ben fy nigon i groesawu 'Le Gallois ar ei newydd wedd' i'r ddinas. Roedd yn aduniad o fath i Francois Dupuy a Chef 'Paj', dan reolaeth y bos Marc Palladino uwchben ei fusnes hir-sefydlog yntau, Pizzeria Villagio. Ond y costau cynyddol oedd ar fai yma yn ogystal - costau cyfleustodau a chynnyrch (*utilities and produce*) yn benodol. Penderfynwyd cau'r bwyty ail-lawr er mwyn ehangu adain tecawê y busnes pitsa, yn y gobaith o gynnal ambell 'pop-up' Sopra 73 yn y dyfodol.

Ar ben y costau a grybwyllais, mae ystyriaethau eraill – costau staff, costau yswiriant, rhenti, treth ar werth a chyflogau, heb sôn am ddyledion dybryd yn sgil benthyciadau adeg Covid. A'r cyfan, wrth gwrs, mewn cyfnod pan fo'r cwmnïau ynni mawrion yn cyhoeddi'r ffigurau elw mwyaf eto. Mae'n gyfnod arswydus o anghytbwys, a dweud y lleiaf. Ai doeth felly yw agor bwyty ar y foment?

Amser a ddengys yn achos dau fusnes newydd a leolwyd lai na chan llath o'i gilydd reit yng nghanol y ddinas. Dros y blynyddoedd diwethaf datblygodd y Stryd Fawr, gyferbyn â'r castell, yn ganolfan o fariau a bwytai llawn bwrlwm a byrddau al fresco. Dros fis yn ôl bellach cefais fwrdd ger y ffenest yn Parallel, brawd -fwyty Pasture drws nesaf. Sefydlwyd Pasture ym Mryste yn 2019, cyn ymestyn ei gorwelion dros yr afon Hafren. Os mai stecen o fri yw eich gwir ddiléit chi, yna ewch yno ar eich union. Ond os am ystod mwy eang o seigiau ar blateidiau bychain yna Parallel yw'r lle i chi. Fel Pasture gall rhai o'r prisiau ddenu dagrau i'r llygaid, ond wedi dweud hynny mae'r safon yn aruthrol. O'r coctels tymhorol gan Richie (ges i flas ar y Margarita a'r Spritz dil a riwbob), a'r seigiau ysgubol – dwi'n caru'r tost cranc, y cyw iâr 'di'i ffrio, a'r dewis llysieuol (rhaid i chi flasu'r saig moron!). Ac ar ben hynny, Cymro Cymraeg sydd wrth y llyw, sef Owen Lloyd. Digwyddais alw yno un noson i holi os oedd lle i ddau ohonom, ac wrth holi yn y Gymraeg, cawsom le wrth y bar.

Nawr dwi ddim am eiliad yn honni fod Cymry Cymraeg yn derbyn ffafriaeth... ond dydw i byth wedi bod ar fy ngholled wrth siarad Cymraeg yn un o fwytai canol y ddinas. Mae gan nifer o fwytai gorau'r ddinas groesawyr Cymraeg eu hiaith. Llŷr yn Bacareto, Phil yn Nook a Kindle, Lois yn Thomas [Simmonds] ac Adam yn Asador 44. Ac union yr un profiad ges i mewn bwyty arall cyfagos, diolch i Kurtis Barker, cyn-ddisgybl yn Ysgol Cwm Rhymni.

Nawr pwy yw Kurtis Barker, meddech chi? Wel, etifedd un o fusnesau mwyaf llewyrchus Caerdydd. Fe gofiwch chi mae'n siŵr siop Barker's yn Arcêd y Castell, slawer dydd? Yna Barker's Cafe a Barker's Tea Rooms, Gin and Juice a Rum and Fizz? Wel union yr un teulu sy'n gyfrifol am fwyty newydd sbon, Maison de Boeuf yn Arcêd y Castell, ble safodd Madame Fromage. Fel y caffi-deli a'r siop gaws blaenorol, mae Ffrainc yn chwarae rhan ganolog, ond dinas Paris yn benodol – yn arbennig steak frites chwedlonol eu brasseries . A mam bach, neu 'petite maman' ddylwn i ddweud, am agoriad arwyddocaol.

Yn un peth, mae'n gam ymlaen yn hanes diwylliant hwyrnos y ddinas, wrth ganiatáu i un o arcedau Fictoriaidd Caerdydd aros ar agor yn hwyrach nag ers tro byd. Ar naill ben Arcêd y Castell felly mae gyda ni fariau byrlymus Gin and Juice a

Rum and Fizz, ac ar y llall mae bar gwin hyfryd iawn, Nighthawks, llawn teyrngedau celf i Edward Hopper. A bellach, yn y canol, mae'r brasserie bendigedig hwn, sy'n cynnig adlais o'r Moulin Rouge, diolch i'r arwydd anferthol! Â minnau newydd ddychwelyd o wyliau i Nice, alla i'ch sicrhau chi roedd yn bendant angen bwyty fel hwn arnom ni – yn arbennig ers cau Chez Francis. Brasserie - di-ffwdan, gyda bwydlen gryno o glasuron cysurlon. Roedd y cawl nionod yn ardderchog, y rymp cig eidion (o gigydd Howells, Abertawe) yn odidog... heb sôn am y sglodion, a'r saws mwstard cyfrinachol. Yn goron ar y cyfan, tarte tatin (tarten afal) gorchestol. A gwin coch y tŷ, oedd yn rhesymol mewn pris, ac awyrgylch oedd fel bod ar wyliau yn eich dinas eich hun.

Ie wir, 'Un Ddinas, Dau Fyd'. Ac wrth feddwl am y nofel, dyma gofio golygfa allweddol tua'r diwedd. Mewn bwyty dinesig, mae'r prif gymeriad Emlyn yn cyflwyno modrwy ddiemwnt i'w gariad, o'r enw Cariad. Wna i'm datgelu'r ateb, ond lleoliad y bwyty? Y Lolfa Thai... a drodd yn Sopra 73 yn ystod y pandemig. Ac o ble ga'th e'r fodrwy tybed? O siop yn Arcêd y Castell! Ha... cyd-ddigwyddiad llwyr, fel mae'n digwydd. Ond mae'n dweud y cyfan ond tydi? Byd bach iawn yw dinas Caerdydd, ac fe sgwennir straeon newydd sbon pob dydd. Yn wir, mae cloddio i hanes bwytai fel archaeoleg emosiynol, yn llawn dop o gysylltiadau ac atgofion o'r gorffennol. Wrth graffu'n fanwl ar yr hen a'r newydd, a'r holl fynd a dod ar hyd y blynyddoedd, cawn weld fod gan bawb eu rhan fechan i chwarae yn narlun mawr y ddinas.

*Parallel, 11 Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1AW; 07742885440*

*Maison de Boeuf, 21 Arcêd y Castell, Caerdydd CF11 1BU; 029 20804462*

*Bwytai Cymru a Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke, £9.99 yr un*

# Merched y Wawr Bro Radur

Fis Ionawr 2020 cofrestrodd Elin Wyn gyda'r elusen Marie Curie i fynd ar drec i godi arian ym Mhatagonia. Golygai hyn gerdded 100 cilomedr ar dir caregog a serth am 7-8 awr bob dydd, gwersylla mewn pebyll bach am bedair noson ar y ffordd a chodi £4,000 cyn cychwyn. Achosodd y pandemig i'r daith gael ei gohirio ddwy waith ond Tachwedd 5 -15, 2022 ymgymerodd y grŵp o 25 (bron i gyd o Gymru ac un rhan o dair ohonyn nhw'n siarad Cymraeg) â'r daith i Dde America.



*Elin Wyn*

Ar ôl gweld tipyn o Buenos Aires dyma hedfan am dair awr i Esquel lle roedd bws Jorge Jones yn aros i fynd â nhw am dair awr arall i ganol y wlad i gychwyn ar y trec. Roedd hi'n ddechrau'r haf yn yr Ariannin gyda thymheredd o tua 33ºC. Roedd y daith yn mynd drwy ardaloedd La Caldera, Piendra Padara a Dyffryn y Merthyron a'r diwrnod olaf cerddwyd at droed Yr Andes ac i bentref hyfryd Trevelin. Yno croesawyd y teithwyr blinedig gydag adloniant gan blant bach Ysgol y Cwm ac *asado* mawr. Profiad tu hwnt o bleserus i Elin oedd cwrdd unwaith yno gyda Jessica Jones fu'n edrych ar ôl Matthew ei mab am bron i flwyddyn pan oedd e'n fach.


*Allan Cook a'r Dr Elin Jones*

Cyn troi am adre aeth y grŵp wedyn ar draws y paith [600km] mewn bws dros nos a chyrraedd Dyffryn Camwy a'r Gaiman yn blygeiniol. Yno eto cafwyd croeso Cymreig a brecwast gwerth chweil yn nhŷ te Tŷ Gwyn. Llwyddodd Elin i godi cyfanswm personol o £5,687.00 i Marie Curie Cymru, sef Hosbis Holme Towers, Penarth, lle treuliodd tad Elin, Glan Roberts, ei ddyddiau olaf a chael gofal arbennig yno ac i gynnal nyrsys ar draws Cymru. Roedd pwyllgor Merched y Wawr Bro Radur wedi cyfrannu at ei hymdrech drwy gynnal bore coffi ar 1 Medi 2022 yng nghartref Mary Nicholas, ein llywydd.

Noson ar y cyd gyda Gŵyl Radur gafwyd ar 3 Mai pan ddaeth y Dr Elin Jones i roi sgwrs hynod ddiddorol a llawn hiwmor ar ei llyfr *Hanes yn y Tir*. Gofynnodd Rhodri, cefnder Elin, iddi brynu llyfr am hanes Cymru oedd yn addas i'w wyres, Josephine, i gyd-fynd gyda'r llyfrau oedd gan y ferch fach 9 oed ar hanes Iwerddon (gwlad enedigol ei mam), yr Alban (lle mae Rhodri yn byw) a gwlad Pwyl (cartref ei thad-cu arall). Methodd Elin ddod o hyd i lyfr addas, ac aeth ati yn ystod y cyfnod clo i ysgrifennu *Hanes yn y Tir*. Roedd Josephine eisiau darlun cytbwys o hanes Cymru o'r dechreuad hyd heddiw ac ymatebodd Elin gyda chyflwyniad gweledol o hanes Cymru ers dros 5,000 o flynyddoedd yn ôl hyd at ddiweddglo o furluniau yng Nghaerdydd adeg cystadleuaeth bêl-droed yr Ewros yn 2021. Mae Elin yn ddiolchgar iawn i Wasg Carreg Gwalch am ddiwyg arbennig y llyfr.

Rhoddwyd copi o'r llyfr i holl ysgolion Cymru ar ddechrau 2022 fel adnodd gwerthfawr i gefnogi'r gwaith o addysgu hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd a sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn deall gorffennol, presennol a dyfodol eu cenedl. Darparodd Elin y llyfr, sy'n addas ar gyfer plant 8-12 oed a hŷn, yn y Saesneg hefyd, *History Grounded*.

Gwerthwyd pob copi Cymraeg a nifer o rai Saesneg yn y cyfarfod a bydd negeseuon a llofnod y Dr Elin Jones arnyn nhw yn gofnod o hanes y noson arbennig hon i'r dyfodol!

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Yw trosiant eich busnes (incwm gros cyn costau) wedi cynyddu i dros £85,000 mewn unrhyw gyfnod o 12 mis? Os felly, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW (neu *VAT).* Cofiwch mai'r cyfnod perthnasol i asesu eich trosiant yn erbyn y trothwy o £85,000 yw unrhyw gyfnod o 12 mis (nid y flwyddyn dreth, neu os ydych yn gwmni cyfyngedig, nid diwedd blwyddyn ariannol y cwmni).

Os ydych yn ansicr os byddwch yn cyrraedd y trothwy TAW, neu os ydych eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r trothwy, cysylltwch â'ch cyfrifydd.

2. Mae ffigyrau'r Swyddfa Dreth yn dangos bod eu hincwm o Dreth Etifeddiaeth wedi codi £1bn yn y flwyddyn diwethaf i £7.1bn. Mae cynllunio'n allweddol i leihau treth etifeddiaeth a'r cam cyntaf i'w gymryd yw i sicrhau bod gennych ewyllys cyfredol a dilys.

3. Yng Nghymru, ers mis Ebrill eleni, mae'n rhaid i lety gwyliau (neu *furnished holiday let)* gael ei osod am o leiaf 182 diwrnod a bod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes (*business rates*) yn lle'r dreth cyngor. Dyma gynnydd sylweddol o'r trothwy blaenorol o 70 diwrnod o osod a 140 diwrnod o fod ar gael i'w osod.

Gall hyn arwain at gynnydd sylweddol i gostau perchnogion llety gwyliau gan fod rhai cynghorau lleol yn pendroni uwch godi premiwm treth cyngor o 200%-300% ar berchnogaeth ail gartrefi.

***Cwestiynau Huw ac Aled***

*Dwi ar fin symud dramor am rai blynyddoedd a dwi'n dymuno parhau i dalu i mewn i fy mhensiwn personol yn y DU. A fydda i'n parhau i gael rhyddhad treth ar fy nghyfraniadau pensiwn personol pan nad wyf yn breswylydd treth yn y DU?*

Yn gyntaf, bydd angen i chi gysylltu â'ch darparwr pensiwn i wirio os yw ei bolisi yn caniatáu i breswylwyr treth sydd ddim yn byw yn y DU barhau i dalu cyfraniadau i'w pensiynau personol (gall polisïau amrywio gan ddibynnu ar y darparwr).

Yn ail, os yw'r darparwr yn caniatáu i chi barhau â'ch cyfraniadau pensiwn personol, yn ddibynnol ar rai amodau, efallai y gallwch barhau i wneud cyfraniadau pensiwn o hyd at £3,600 (gros) bob blwyddyn i'ch cynllun personol, am hyd at bum mlynedd ar ôl i'ch statws treth newid i fod yn breswylydd treth tu allan i'r DU.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cymrodorion Caerdydd

Daeth tymor 2022/23 Cymrodorion Caerdydd i ben gyda chyflwyniad diddorol iawn gan Carwyn Graves. Ef yw awdur y gyfrol *Welsh Food Stories*. Mae hefyd wedi cyfrannu erthyglau i'r *Traethodydd* ac *O'r Pedwar Gwynt*. Fe'i penodwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i swydd yn y Ganolfan Tir Glas.

Teitl ei gyflwyniad oedd 'Cennin a Chig Oen? Golwg newydd ar fwyd Cymru'. Dechreuodd drwy ein hatgoffa o bwysigrwydd y diwydiannau cynhyrchu bwyd i economi Cymru, yn enwedig o'i gymharu â phwysigrwydd llawer llai y diwydiannu hynny i economi gwledydd eraill Prydain.



Yn gyffredinol, meddai Carwyn, nid ydym yn ymwybodol o'r amrediad eang sydd o'r rhywogaethau o fwydydd a gynhyrchir yng Nghymru a'r ffaith bod amrywiaeth i'w gael o fewn un rhywogaeth o ffrwyth, grawn neu lysieuyn. Er enghraifft, nodwyd 250 is-ddosbarth o wenith 'Hen Gymro'! Mae rhai rhywogaethau Cymreig o ffrwythau, megis afalau ac eirin, yn enwog y tu hwnt i Gymru wrth gwrs, a bu trafod ar nifer o'r rhain.


Mae'n bwysig sylweddoli nad cynnyrch amaeth yn unig yw'r bwydydd sy'n tarddu o Gymru. Mae afonydd Cymru a'r môr o'n cwmpas wedi cynhyrchu danteithion enwog fel sewin, cocos Penclawdd a chregyn gleision Aberconwy i enwi ond nifer fechan.

Fe wnaeth cyflwyniad Carwyn i ni sylweddoli fod cynhyrchu a pharatoi bwydydd cynhenid Gymreig yn rhan bwysig o'n diwylliant - diwylliant y dylem ni fod yn fwy ymwybodol ohono ac ymfalchïo mwy ynddo.

Ers ein cyfarfod diwethaf, collasom un o'n haelodau selocaf, y diweddar Illtyd Lloyd. Bu Illtyd yn un o lywyddion y Cymrodorion, a gwasanaethodd am flynyddoedd fel trysorydd. Yr oedd ei gyfraniadau i drafodaethau'r pwyllgor bob amser yn ddoeth a hawddgar, a bydd colled fawr ar ei ôl. Gweler y deyrnged lawnach iddo hefyd.

## Rhif: 233

A
DINES
R



**Ar Draws**

1. Crea gyfair (4)
7. 'Er dyfned yw y loes
----- ----- ----- y groes'( HEL) (2,6,2)
9. Chwilia'r ateb i hwn (8)
10. Mae Ifan Glo ar yn ail yn ddisgybl (4)
12. Gorchest deg yw gwersyllu (6)
14. Galluog yw'r mab-yng-nghyfraith sy'n troi'r haul yn Lloegr (6)
15. 'Tyner yw'r lleuad heno - tros ------ Trawsfynydd yn dringo' (RWP) (6)
17. Dos i'r byd yn hwn efallai (6)
18. 'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr
Ac yn codi efo'r wawr
I ddilyn yr og ar ochr y -----' (JCH) (4)
19. Cartrefi yr Urdd (8)
21. Teilwng o glod yw amcan dwylo (10)
22. Suodd cyn mynd i lawr (4)

**I Lawr**

2. Dal mlaen yn dilyn brwydr y gwaelaf rywsut (4,6)
3. Cael pwdin mewn cadair eistedd (4)
4. Hanner cyfres ar amcan amser (6)
5. Yr etholwyr yn cael eu dwys rewi (8)
6. Pa berson ar ganol nos sy'n curo (4)
8. Byw a marw (5)
11. '----- ----- ----- yn eu blodau
Edrych arnynt hireth ddug' (JCH) (4,1,5)
13. Ardderchog cael dipyn o enigma mewn amgylchiadau tawel iawn (8)
16. Gofid lawer yn arwain at glafychu (6)
17. Mae cael penbleth cyn dechrau'r dydd yn anodd (5)
18. 'Wrth ddychwel tuag adref
Mi glywais ----- lon' (JCH) (4)
20. Darn o dir yn rhan o glogwyn ysgithrog (4)

**Enillydd Croesair Rhif 231**

**Alun Guy, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 231**

**Ar Draws:** 7. Afiaith 8. Gorwel 10. Distryw 11. Brawd 12. Dawn 13. Anwar 17. Cywydd 18 Bale 22. Drama 23. Arloesi 24. Ysgafn 25. Cymodi

**I Lawr:** 1. Maldodi 2. Hinsawdd 3. Eigra 4. Pob brad 5. Ffwdan 6. Dlodi 9. Mwyn dy Fab 14. Cymanfa 15. Caregog 16. Heniaith 19. Edrych 20. Masgl 21. Clwyd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Y DIGWYDDIADUR

### Gorffennaf

**Sul, 2 Gorffennaf**
Cymanfa Ganu Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Mynediad am ddim, ond derbynnir cyfraniadau tuag at yr Ŵyl.

**Iau, 6 Gorffennaf**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Siaradwraig: Bethan Whittall. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Gwener–Sadwrn, 7–8 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno *Jemima*, drama newydd i blant 7+ gan Jeremy Turner, yn Theatr Sherman am 1.30pm. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/jemima/?lang=cy

**Mercher, 12 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Pwyllgor Trefnu Rhaglen 2023–24, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056 -6508).

**Iau, 13 Gorffennaf**
Tafwyl a Glamorgan Brewing Co. yn cyflwyno Dragwyl ar lwyfan Cabaret Canolfan Mileniwm Cymru am 8.30pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2023/dragwyl

**Gwener, 14 Gorffennaf**
Bronwen Lewis ac Alis Glyn yn Neuadd St Catherine's, Pontcanna, am 7.30pm. Er gwybodaeth: mae'r tocynnau wedi gwerthu allan.

**Sadwrn–Sul, 15–16 Gorffennaf**
TAFWYL – ym Marc Bute. Manylion pellach: https://tafwyl.org/

**Sadwrn, 22 Gorffennaf**
Dathlu 200: datganiad organ unigryw yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.

**Anfonwch fanylion ar gyfer
Y Digwyddiadur at
Yr Athro E. Wyn James
Manylion tud.2**

## Cerdded, Sgwrsio a Chadw'n Heini – Mis Mehefin gyda'r Mentrau - Rachel Matthews

Roedd hi'n braf gweld cymaint ohonoch yng Ngŵyl Fach y Fro ar 20 Mai. Diolch i bawb ddaeth draw i Ynys y Barri i glywed y bandiau gwych a mwynhau'r canu swynol gan gorau'r ysgolion. Ymlaen â ni i Tafwyl! Cofiwch y dyddiad – Sadwrn, 15 a Sul, 16 Gorffennaf.

Mae dros fis i fynd tan hynny wrth gwrs, felly beth sydd ar y gweill ar gyfer mis Mehefin?









Lluniau: hwyl Gŵyl Fach y Fro

### Taith Gerdded Mynydd y Garth (bore Sul, 25 Mehefin)

Dewch gyda ni ar gylchdaith 5 milltir o Ffynnon Taf i gopa Mynydd y Garth. Yn ogystal â mwynhau'r golygfeydd bendigedig dros aber Afon Hafren, cewch weld nifer o feddrodau o Oes yr Efydd ar y copa. Bydd nifer o lethrau serth ar y ffordd ond bydd hi'n werth yr ymdrech! Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel.

### Sgwrs y Mis (nos Lun, 26 Mehefin, Zoom)

Yr Athro Bill Jones fydd yn ymuno â ni ar gyfer Sgwrs y Mis, nos Lun, 26 Mehefin gan gynnig cipolwg ar rai o brofiadau ymfudwyr o Gymru wrth iddynt groesi'r cefnforoedd ar eu ffordd i'w bywydau newydd dros y môr. Canolbwyntir gan fwyaf ar Gymry a groesodd Fôr yr Iwerydd yn ail hanner y 19eg ganrif er mwyn ymsefydlu yn Unol Daleithiau America. Cawn glywed straeon y mordeithwyr yn eu geiriau eu hunain gyda chymorth ffynonellau gwreiddiol sydd wedi goroesi, gan gynnwys llythyrau personol, gohebiaeth i'r wasg, dyddiaduron, atgofion a barddoniaeth.

### Mewn Tiwn (bore Llun, 26 Mehefin, Canolfan Beulah, Rhiwbeina)

Y chwaraewr ffidil Aneirin Jones fydd yn perfformio i ni yn ein cyngerdd gymunedol olaf cyn yr haf fore Llun, 26 Mehefin. Mae Aneirin, sy'n aelod o'r triawd gwerin VRï, yn rhan o gynllun Live Music Now sy'n cynnig cyfle i gynulleidfaoedd fwynhau cyngherddau anffurfiol yn eu cymunedau. Bydd y gyngerdd, sy'n rhad ac am ddim, yn dechrau am 11.30 ond bydd paned ar gael o flaen llaw.

### Cadw'n Heini

Awydd gwneud ychydig o ymarfer corff cyn gwyliau'r haf? Beth am roi cynnig ar un o weithgareddau ffitrwydd Menter Caerdydd? Gallwch ddewis o 'Lonc a Chlonc' ym Mharc Bute bob nos Fawrth, yng nghwmni Myfanwy Thomas o 'Mae Hi'n Rhedeg Caerdydd' neu ioga bob nos Fercher gyda 'Pili Pala Yoga'. Hefyd nos Fercher, mae 'Codi Cryfder gyda Gwenno'; cyfle i gryfhau'r cyhyrau a'r esgyrn mewn dosbarth sy'n addas i bawb o bob maint ac oedran!

### Clybiau Plant

Byddwn ni'n croesawu criw Technocamps yn ôl i'r Atriwm brynhawn Llun, 12, 19 a 26 Mehefin ar gyfer y Clwb Codio. Mae'r sesiynau, sy'n rhad ac am ddim, yn boblogaidd iawn felly cofiwch gofrestru'n gynnar! Ysgol y Berllan Deg fydd lleoliad ein Gweithdy Gwyddoniaeth olaf am y tro yng nghwmni SparkLab ar 19 Mehefin. Y pris yw £11 a gellir cofrestru ar wefan Menter Caerdydd. Cofiwch hefyd am ein sesiynau i blant bach a'u teuluoedd gan gynnwys Amser Stori wythnosol newydd yn y Llyfrgell Ganolog ar brynhawniau Llun o 12 Mehefin.

### Y Cwis Mawr: Rownd Caerdydd (nos Iau, 6 Gorffennaf, Institiwt Llandaf)

Ydych chi'n gwybod popeth am bopeth? Beth am ymuno â ni yn Institiwt Llandaf am Rownd Caerdydd o'r Cwis Mawr? Dyma gwis cenedlaethol a drefnir gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Y syniad yw dod â siaradwyr newydd a rhugl ynghyd i fwynhau noson o gystadlu hwyliog. Bydd digon o chwerthin yng nghwmni'r cwis-feistr profiadol, Aled Wyn Phillips, a chyfle i'r tîm buddugol fynd drwyddo i'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ewch i'r wefan i gofrestru eich tîm!

### Gorffennaf - Cadwch y dyddiad:

Cerdded a Chlonc: Bore Iau, 6 Gorffennaf, 10.30
Taith Natur Tafwyl: Prynhawn Sul, 9 Gorffennaf.
Parti yn y Parc: Bore Llun, 10 Gorffennaf, Parc y Rhath
Tafwyl: Penwythnos, 15 a 16 Gorffennaf

*Am fwy o wybodaeth:*
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888